Department for Environment, Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun rheoli pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer rhywogaethau pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr

Chwefror 2026

Fersiwn: ymgynghoriad cyhoeddus

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn:

FMPconsultations@defra.gov.uk

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol ........ 5

Diben a chwmpas ........ 9

Disgrifiad o rywogaethau, stociau a physgodfeydd yr FMP ........ 9

Pysgota hamdden ........ 33

Ystyriaethau Amgylcheddol ac Ecosystemau ........ 34

Rheoli pysgodfeydd ........ 39

Polisïau FMP ........ 43

Gweithredu, monitro ac adolygu ........ 55

# Talfyriadau

Cefas – Canolfan ar gyfer yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Gwyddor Dyframaethu

CSMA – Cymdeithas Rheoli Sardîns Cernyw

Defra – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

FMP - cynllun rheoli pysgodfeydd

GES – statws amgylcheddol da

ICES – Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Archwilio'r Môr

IFCA – awdurdod pysgodfeydd a chadwraeth y glannau

JFS – Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd

JNCC – Pwyllgor Cadwraeth Natur ar y Cyd

MCRS – maint cyfeirio cadwraeth lleiaf

MMO – Sefydliad Rheoli Morol

MPA – ardaloedd morol gwarchodedig (gall hyn gynnwys ACAau – ardaloedd cadwraeth arbennig, PCMau - parthau cadwraeth morol, AGAau – ardaloedd gwarchodedig arbennig, AMGI – ardaloedd morol gwarchodedig iawn)

MSC – Cyngor Stiwardiaeth Forol

MSY – y cynnyrch cynaliadwy mwyaf

NQS – rhywogaethau di-gwota

CNC - Cyfoeth Naturiol Cymru

REM – monitro electronig o bell

SNCB – cyrff cadwraeth natur statudol

TAC – cyfanswm y daliad a ganiateir

Y Ddeddf – Deddf Pysgodfeydd 2020

UKMS – Strategaeth Forol y DU

# Crynodeb gweithredol

Mae cynllun rheoli pysgodfeydd pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr  yn un o 43 o FMPs a nodir yn y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd (JFS). Yn y ddogfen hon byddwn yn cyfeirio ato fel “yr FMP hwn” neu “yr FMP”. Fe'i datblygwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â

- Gwyddonwyr y DU
- rheoleiddwyr
- cyrff cadwraeth natur statudol (SNCBs)
- rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr y diwydiant a sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol

Ei nod yw cyflawni rheolaeth gynaliadwy hirdymor ar bysgodfeydd pelagig yn nyfroedd Cymru a Lloegr o adrannau 7e, 7f, 7g, 7h y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Archwilio'r Môr (ICES). Mae hyn yn unol ag amcanion y Ddeddf Pysgodfeydd 2020 ('y Ddeddf') ac fel sy'n ofynnol gan y JFS.

## Beth yw FMP?

Cynllun gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw FMP a gynlluniwyd i gyflawni pysgodfeydd cynaliadwy yn y tymor hir. Mae'n nodi gweledigaeth a nodau tymor hwy ar gyfer y bysgodfa (neu'r pysgodfeydd), ynghyd â'r polisïau a'r ymyriadau rheoli sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nodau hyn yn y tymor byr.

Lle bo'n briodol, gall nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â materion ehangach a nodwyd yn ystod ei ddatblygiad, megis ystyriaethau amgylcheddol neu gymdeithasol ac economaidd. Er mwyn parhau i fod yn effeithiol, bydd yr FMP yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn ymateb i dystiolaeth newydd a phrofiad ymarferol. Rhaid ei adolygu, ac os oes angen, ei ddiwygio o leiaf unwaith bob chwe blynedd.

## Pam FMP ar gyfer stociau pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr?

Mae pysgodfeydd pelagig yn nyfroedd Cymru a Lloegr y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr yn cyfrannu'n gymdeithasol ac yn economaidd at gymunedau arfordirol. Fe'u hystyrir hefyd yn bwysig yn ecolegol fel rhywogaethau pysgod porthiant (ysglyfaeth i lawer o rywogaethau sensitif a gwarchodedig eraill).

Mae'r FMP hwn yn cwmpasu 6 stoc yn nyfroedd Cymru a Lloegr yn adrannau ICES 7e, 7f, 7g, 7h:

- sardîns (Sardina pilchardus) yn is-ardal 7 (deheudir y Moroedd Celtaidd a Môr Udd - rhywogaeth di-gwota
- brwyniaid (Engraulis encrasicolus) – rhywogaeth di-gwota
- penwaig yr Iwerydd (Clupea harengus) yn cynnwys 2 stoc
    - penwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren – wedi’u cynnwys o dan uned rheoli TAC HER/7EF
    - penwaig y Môr Celtaidd – wedi’u cynnwys yn yr uned rheoli stoc gyfatebol HER/7GK
- marchfecryll y gorllewin (Trachurus trachurus) – wedi'u cynnwys yn yr uned rheoli TAC JAX/2A-14
- brwyniaid arian mawr (Argentina silus) yn ardaloedd ICES 7–10, 12, a 6b – wedi'u cynnwys yn uned rheoli TAC ARU/567)

Ar gyfer stociau sardîns, brwyniaid a phenwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren, nid oes digon o dystiolaeth wyddonol i alluogi'r awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol i asesu stociau a rhoi cyngor mewn perthynas ag egwyddorion y cynnyrch cynaliadwy mwyaf (MSY). Felly, mae'r FMP hwn yn nodi polisïau i gynnal neu gynyddu lefelau'r stociau hyn, gan gynnwys y camau i gael y dystiolaeth wyddonol sy'n angenrheidiol i alluogi asesiad o MSY y stociau.

Ar gyfer stociau penwaig y Môr Celtaidd, marchfecryll y gorllewin a brwyniaid arian mawr, mae digon o dystiolaeth ar gael i roi cyngor mewn perthynas ag MSY. Felly, mae'r FMP hwn yn nodi polisïau sydd o leiaf yn cyfrannu at gynnal neu adfer y stociau hyn i lefelau cynaliadwy.

Mae'r FMP hwn yn nodi'r rheolaeth gyfredol ar gyfer pob un o'r stociau ochr yn ochr â'r dystiolaeth sydd ar gael i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y pysgodfeydd, gan ystyried agweddau amgylcheddol, ecolegol, cymdeithasol ac economaidd y pysgodfeydd.

Mae'r FMP hwn yn cynnwys pysgodfeydd masnachol a hamdden o dan y diffiniad ymbarél o 'bysgodfeydd' a nodir yn y Ddeddf. Felly, mae unrhyw gyfeiriad at y sector neu'r diwydiant pysgota yn cynnwys pysgota hamdden a masnachol.

## Y dull cyfalaf naturiol

Fel rhan o raglen Asesiad Cyfalaf Naturiol ac Ecosystemau Morol (mNCEA) Defra, dewiswyd yr FMP hwn i beilota sut y gellid cymhwyso dull cyfalaf naturiol i reoli pysgodfeydd. Dull cyfalaf naturiol yw un sy'n ystyried ac yn deall yn llawn gyd-ddibyniaethau bodau dynol a natur.

Drwy raglen mNCEA, casglwyd a dadansoddwyd tystiolaeth amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ychwanegol (a amlinellwyd yn fanwl yn y datganiad tystiolaeth ategol) i gefnogi cymhwyso'r dull cyfalaf naturiol a datblygiad yr FMP. Cefnogodd rhaglen mNCEA

hefyd ymgysylltiad pellach â rhanddeiliaid (a grynhoir isod ac a amlinellir yn fanwl yn yr adroddiad ymgysylltu ategol) i sicrhau bod dull cyfalaf naturiol yn cael ei gymhwyso i lywodraethu datblygiad yr FMP.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae'r FMP wedi'i gyd-ddatblygu â grŵp 'partneriaeth' (y Bartneriaeth FMP) a sefydlwyd at y diben hwn, dan arweiniad y Sefydliad Rheoli Morol (MMO). Roedd y bartneriaeth FMP yn cynnwys rhanddeiliaid arbenigol a chynrychiolwyr gan gynnwys gwyddonwyr, rheoleiddwyr, cyrff cadwraeth natur statudol (SNCBs), y diwydiant pysgota, pysgotwyr hamdden, sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol (eNGOs), Defra, Llywodraeth Cymru, a diwydiannau allweddol eraill sy'n defnyddio ardal yr FMP. Fe wnaeth y Bartneriaeth FMP gyd-ddylunio nodau a chamau gweithredu’r FMP, gan roi mewnwelediad gwerthfawr i gyflwr stociau pysgod a physgodfeydd, ac effeithiau posibl newidiadau polisi ar yr ecosystem ehangach, pysgotwyr a chymunedau dibynnol eraill.

Roedd y Bartneriaeth FMP yn rhedeg ochr yn ochr â gweithgor technegol FMP ('y gweithgor technegol'), dan gadeiryddiaeth Natural England. Roedd y gweithgor technegol yn cynnwys cynrychiolwyr o Defra, Llywodraeth Cymru a chyrff hyd braich ac yn gweithredu fel grŵp cynghori, yn enwedig yng nghyfnodau cynharach y datblygiad pan oedd ffocws ar archwilio tystiolaeth.

Er mwyn hwyluso ymgysylltiad y tu hwnt i'r Bartneriaeth FMP, cynhaliwyd cyfres o weithdai, sesiynau briffio a chyswllt uniongyrchol â rhanddeiliaid unigol a grwpiau o randdeiliaid. Mae rhagor o wybodaeth am y Bartneriaeth FMP a gweithgareddau ymgysylltu rhanddeiliaid ehangach a lywiodd yr FMP hwn yn yr adroddiad ymgysylltu FMP.

Bydd adborth a dderbynnir fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn helpu i lunio'r ddogfen derfynol.

## Gweledigaeth yr FMP

Y weledigaeth ar gyfer yr FMP hwn yw bod pysgodfeydd ar gyfer sardîns, brwyniaid, penwaig, marchfecryll a brwyniaid arian mawr yn y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr (dyfroedd Cymru a Lloegr) yn cael eu rheoli i gyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, er budd cymunedau arfordirol a'r gymdeithas ehangach, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.

Mae'r nodau polisi a amlinellir isod yn nodi sut y gellid cyflawni hyn gan ddefnyddio dull cyfalaf naturiol. Mae rhagor o fanylion am y dull i'w gweld yn y datganiad tystiolaeth ategol.

# Nodau polisi

Er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol ar bysgodfeydd sardîns, brwyniaid, penwaig, marchfecryll a brwyniaid arian mawr yn y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr, mae'r FMP hwn yn nodi 8 nod polisi sy'n mynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth allweddol. Datblygwyd y nodau hyn i:

- adlewyrchu'n uniongyrchol y blaenoriaethau a nodwyd gan y Bartneriaeth FMP
- ymateb i'r materion a'r cyfleoedd a amlygwyd gan y dystiolaeth gyfredol
- cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol

Mae'r nodau hyn yn amodol ar ystyriaeth o ymatebion i'r ymgynghoriad a byddant yn cael eu blaenoriaethu'n briodol i sicrhau allbynnau realistig a mesuradwy. Cawsant eu drafftio i fodloni gofynion adran 6(3) o'r Ddeddf (polisïau 1, 2, a 3) a pholisïau a nodir yn y JFS (polisïau 4, 5, 6, 7 ac 8).

Ar gyfer pob nod, mae'r cynllun yn nodi:

- rhesymeg
- camau gweithredu tymor byr (1 i 2 flynedd)
- camau gweithredu tymor canolig i hirdymor (mwy na 3 blynedd)

Mae dangosyddion ar gyfer monitro perfformiad ac effeithiolrwydd yr FMP wedi'u nodi tua diwedd y ddogfen yn yr adran 'gweithredu, monitro ac adolygu'.

Dyma 8 nod polisi'r FMP hwn.

1. Cynaeafu stociau sardîns, brwyniaid a phenwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren yn gynaliadwy, gyda'r nod cyffredinol o gynnal neu gynyddu lefelau'r stociau.

2. Cynaeafu stociau penwaig y Môr Celtaidd, marchfecryll a brwyniaid arian mawr yn gynaliadwy, gyda'r nod cyffredinol o gynnal neu adfer biomas y stociau uwchlaw'r lefel sy'n gallu cynhyrchu MSY neu ddirprwy addas.

3. Ceisio gwella'r sail dystiolaeth ar gyfer pob stoc, gan gynnwys caniatáu asesiad o MSY neu ddirprwy addas lle bo angen.

4. Nodi a chefnogi gweithrediad dulliau rheoli pysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystemau sy'n briodol ar gyfer pysgodfeydd pelagig yn y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr.

5. Deall a lleihau effeithiau pysgodfeydd sydd wedi'u cynnwys yn yr FMP hwn ar rywogaethau nad ydynt yn dargedau, gan gynnwys trwy leihau, a lle bo modd, dileu sgil-ddaliadau rhywogaethau sensitif.

6. Lleihau effaith pysgota ar newid hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau newid hinsawdd.

7. Gwella dealltwriaeth o fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pysgodfeydd pelagig sydd wedi'u cynnwys yn yr FMP hwn, a helpu i'w gwireddu.
8. Hwyluso dull rheoli cydweithredol ac addasol i gefnogi gwneud penderfyniadau teg, effeithiol a thryloyw ar gyfer pysgodfeydd pelagig cynaliadwy a gwydn.

# Diben a chwmpas

Mae FMP y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr yn gynllun ar y cyd rhwng Defra a Llywodraeth Cymru. Mae'n cwmpasu stociau o sardîns, brwyniaid, penwaig, marchfecryll, a brwyniaid arian mawr o fewn dyfroedd Cymru a Lloegr yn ardaloedd ICES 7e, 7f, 7g, a 7h.

Mae'r FMP hwn wedi'i baratoi a'i gyhoeddi i

- gydymffurfio â gofynion yn y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd (JFS)
- cydymffurfio ag adran 6 at ddibenion y Ddeddf Pysgodfeydd 2020,
- cydymffurfio â'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni 2004 (y rheoliadau SEA)
- cyfrannu at gyflawni'r 8 amcan pysgodfeydd yn y Ddeddf

Roedd y broses baratoi yn ystyried y cynlluniau morol (fel sy'n ofynnol gan adran 58(3) o'r Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009) a'r egwyddorion amgylcheddol (fel sy'n ofynnol gan adrannau 17(5) (a-e) a 19(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021). Mae'r FMP yn gorgyffwrdd â Chynllun Morol y De, Cynllun Morol y De-orllewin a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019. Fe'i paratowyd a'i gyhoeddi i gydymffurfio â dyletswydd Gweinidogion Cymru i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (adran 6(1)), ac i gyfrannu at y nodau llesiant ac amcanion llesiant Gweinidogion Cymru a osodwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adrannau 3 i 5).

# Disgrifiad o rywogaethau, stociau a physgodfeydd yr FMP

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r ardal ddaearyddol, y rhywogaethau, y stociau a'r pysgodfeydd a gwmpesir gan yr FMP hwn. Mae'n rhoi trosolwg o fioleg ac ecoleg pob rhywogaeth, ac ar gyfer pob stoc mae'n crynhoi'r dulliau asesu stoc, a gweithgarwch pysgota masnachol.

## Dosbarthiad daearyddol

Mae'r FMP hwn yn berthnasol i ddyfroedd Cymru a Lloegr yn ardaloedd ICES 7e, 7f, 7g, a 7h.




**Ffigur 1. Map sy'n dangos yr ardal ddaearyddol a gwmpesir gan yr FMP hwn**

# Rhywogaethau a stociau

Mae'r FMP hwn yn cwmpasu 5 rhywogaeth pelagig, ynghyd â'u hunedau stoc biolegol cysylltiedig (a ddefnyddir ar gyfer asesiadau stoc gwyddonol ICES), ac unedau rheoli TAC yn ôl y galw sy'n berthnasol i'r ardal ddaearyddol a gwmpesir gan y cynllun hwn. Crynhoir y rhywogaethau perthnasol a'u hunedau stoc biolegol ac unedau rheoli TAC isod:

## Sardîns

Mae sardîns Ewropeaidd, a elwir hefyd yn benwaig Mair, wedi'i orchuddio gan un stoc fiolegol yn is-ardal 7 (deheuol y Moroedd Celtaidd a Sianel Lloegr).

Ar hyn o bryd nid oes uned rheoli TAC gyfatebol ar gyfer sardîns. Nid yw sardîns yn rhan o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad. Mae ICES yn rhoi cyngor ar gyfer sardîns yn is-ardal 7. Ystyrir sardîns yn rhywogaeth di-gwota. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Rheoli Sardîns Cernyw (CSMA) yn gosod terfyn dal gwirfoddol blynyddol ar gyfer y bysgodfa sardîns o amgylch arfordir Cernyw (DU). Dim ond i gychod CSMA y mae'r terfyn dal hwn yn berthnasol ac mae'n gyfran fach iawn o'r biomas a gyfrifwyd gan yr arolwg monitro gwyddonol ac nid yw'n adlewyrchu'r stoc gyfan ac ystod ddaearyddol yr FMP.

## Brwyniaid

Nid yw brwyniaid Ewropeaidd yn destun asesiad stoc ar hyn o bryd ac felly nid yw'r stoc fiolegol yn hysbys.

Nid oes uned rheoli TAC yn ardal yr FMP ar gyfer brwyniaid. Mae brwyniaid yn rhywogaeth di-gwota.

## Penwaig

Mae penwaig yr Iwerydd wedi'u cynnwys mewn 2 uned stoc fiolegol:

- Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren yn ardaloedd ICES 7e a 7f – yr uned rheoli TAC
- de Môr Iwerddon, y Môr Celtaidd a de-orllewin Iwerddon sy'n cwmpasu ardaloedd ICES 7g, 7h, 7j, 7k, y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel penwaig y Môr Celtaidd

Ar gyfer penwaig, mae 2 uned rheoli TAC yn ardal yr FMP sydd wedi'u halinio'n uniongyrchol â'r unedau stoc biolegol cyfatebol:

- Penwaig (Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren) sy'n cwmpasu dyfroedd y DU a'r UE yn ardaloedd ICES 7e a 7f (HER/7EF)
- Penwaig (Môr Celtaidd) yn cwmpasu ardal ICES 7a i'r de o 52 gradd 30 munud i'r Gogledd, 7g, 7h, 7j a 7k (HER/7G-K).

### Marchfecryll

Mae marchfecryll yr Iwerydd, a elwir hefyd yn sgad, wedi'u cwmpasu gan un stoc fiolegol yn ardaloedd ICES 8, 2a, 3a, 4a, 5b, 6a, 7a-c, a 7e-k (Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd a dyfroedd cyfagos), y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel marchfecryll y Gorllewin.

Mae uned rheoli TAC marchfecryll (JAX/2A-14) yn berthnasol i ardal yr FMP. Mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol ehangach na'r uned stoc fiolegol, gan gynnwys dyfroedd y DU a'r UE o 4a; 6, 7a-c, e-k; 8a-b, d-e; dyfroedd y DU o 2a; dyfroedd y DU a dyfroedd rhyngwladol o 5b; dyfroedd rhyngwladol o 12 a 14.

### Brwyniaid arian mawr

Mae brwyniaid arian mawr wedi'u cwmpasu gan un stoc fiolegol yn ardaloedd ICES 7 i 10, 12, a 6b.

Yr uned rheoli TAC perthnasol yw'r Brwyniaid Arian Mawr (Gorllewinol) sy'n cwmpasu ardaloedd ICES 6 a 7; dyfroedd y DU a rhyngwladol o 5 (ARU/567). Mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol ehangach na'r stoc fiolegol.

## Crynodeb o bysgodfeydd a statws stoc

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf (2021–2023), sardîns fu stociau pwysicaf yr FMP i longau'r DU (yn seiliedig ar bwysau a gwerth a laniwyd), gyda glaniadau'n sylweddol uwch nag ar gyfer y rhywogaethau eraill o fewn ardal yr FMP. Mae glaniadau marchfecryll gan longau'r DU yn dangos amrywiadau mawr, tra bod penwaig a brwyniaid yn cael eu glanio mewn meintiau bach iawn. Ar hyn o bryd nid oes pysgodfa fasnachol ar gyfer brwyniaid arian mawr o fewn ardal yr FMP.

Mae dulliau pysgota ar gyfer y stociau hyn yn amrywio rhwng stoc a gwlad (darperir manylion yn yr adrannau penodol i stoc isod). Ystyrir y mathau o offer canlynol yn yr FMP hwn: treillrwydi pelagig, rhwydi cylch, rhwydi sân, llusgrwydi a rhwydi statig. Mae'n bwysig nodi, er bod rhai o'r stociau yn yr FMP yn cael eu dal weithiau fel sgil-ddaliadau mewn treillrwydi dyfnforol, nid yw'r math hwn o offer yn cael ei ystyried yn rhan o'r bysgodfa darged, felly nid yw wedi'i gynnwys yn yr FMP a'r asesiadau ategol.

Gyda sardîns, brwyniaid, a phenwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren â diffyg tystiolaeth wyddonol i alluogi'r awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol i asesu'r stociau yn erbyn egwyddorion MSY, mae nod 1 yr FMP hwn yn nodi camau gweithredu i gynnal neu gynyddu lefelau'r stociau hyn. Mae Nod 3 yr FMP hwn yn cynnwys camau gweithredu i gynllunio a chasglu tystiolaeth i helpu i wella asesiadau o'r stociau hyn a galluogi dull MSY (neu ddirprwy addas) yn y dyfodol.

Ar gyfer penwaig y Môr Celtaidd, marchfecryll y Gorllewin a brwyniaid arian mawr, ystyrir bod y dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn ddigonol i alluogi'r awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol i asesu'r stociau a rhoi cyngor mewn perthynas ag egwyddorion MSY. Ar gyfer brwyniad arian mawr, y pwynt cyfeirio yw dirprwy ar gyfer MSY, tra bod y

rhai a ddiffiniwyd ar gyfer penwaig y Môr Celtaidd a marchfecryll y Gorllewin yn defnyddio'r dull MSY. Mae Nod 2 yr FMP hwn yn nodi camau gweithredu i gyfrannu at gynnal neu adfer y stociau hyn i lefelau sy'n gallu cynhyrchu MSY.

Isod mae crynodeb o statws cyfredol y stoc sy'n berthnasol i'r stociau hyn. Gweler ICES am wybodaeth ar Gategorïau stoc ICES:

- mae sardîns yn stoc Categori 3 ICES. Mae cyngor cyfredol ICES yn awgrymu bod maint y stoc yn uwch na'r I-stat (gwerth sbardun mynegai ar gyfer diogelu biomas, pwynt cyfeirio dull rhagofalus)
- nid oes asesiad stoc ar gyfer brwyniaid sy'n berthnasol i ardal yr FMP, felly nid oes amcangyfrif o faint y stoc na chyngor daliad ar gael
- Mae penwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren yn stoc categori 5 ICES. Dim ond data ar laniadau neu gyfres amser fer o ddaliadau sydd ar gael i lywio cyngor cyfredol ICES. Ni all ICES asesu'r stoc a statws ecsbloetio o'i gymharu â phwyntiau cyfeirio MSY a'r dull rhagofalus, oherwydd nad oes gwybodaeth ar gael i ddiffinio pwyntiau cyfeirio
- Mae penwaig y Môr Celtaidd yn stoc Categori 1 ICES. Mae cyngor cyfredol ICES yn awgrymu bod biomas stoc silio penwaig y Môr Celtaidd ar hyn o bryd islaw MSY B-lim (pwynt cyfeirio MSY lle mae cynhyrchiant y stoc yn debygol o gael ei amharu'n ddifrifol)
- Mae marchfecryll y gorllewin yn stoc Categori 1 ICES a chafodd ei meincnodi ddiwethaf yn 2024. Mae cyngor cyfredol ICES yn awgrymu bod biomas stoc silio ar gyfer marchfecryll y Gorllewin islaw sbardun-MSY B (pwynt cyfeirio MSY y mae'r stoc mewn perygl o gael ei gorbysgota oddi tano) a B-pa (pwynt cyfeirio MSY rhagofalus a gynlluniwyd i ddarparu ymyl diogelwch ar gyfer biomas stoc silio) ond uwchlaw B-lim (pwynt cyfeirio MSY y mae cynhyrchiant y stoc yn debygol o gael ei amharu'n ddifrifol oddi tano)
- Mae brwyniaid arian mawr yn stoc Categori 3 ICES. Mae cyngor cyfredol ICES yn awgrymu bod mynegai biomas stoc brwyniaid arian mawr uwchlaw'r sbardun-I (trothwy ar gyfer biomas stoc silio lle ystyrir bod stoc mewn perygl o dan y trothwy)

Ar gyfer pob stoc sydd wedi'i chynnwys yn yr FMP hwn, rhoddir crynodeb o'r fioleg a'r ecoleg, asesiadau stoc, cyngor pysgota a throsolwg o'r bysgodfa fasnachol yn yr adrannau isod. Darperir gwybodaeth ategol ychwanegol ynghylch yr asesiadau, data mewnbwn, a gwybodaeth arall sydd ar gael yn y datganiad tystiolaeth, lle gellir dod o hyd i'r ffynonellau tystiolaeth ategol hefyd.

# Sardîns

## Bioleg ac ecoleg

Mae nifer a dosbarthiad sardîns o amgylch Ynysoedd Prydain wedi amrywio dros y degawd diwethaf oherwydd newidiadau yn nhymheredd y môr. Ar hyn o bryd maent i'w

cael yn y Môr Celtaidd, Sianel Lloegr a Môr y Gogledd. Credir bod sardîns ar eu terfyn mwyaf gogleddol yn yr ardal ddaearyddol a gwmpesir gan yr FMP hwn.

Mae sardîns ifanc yn aml i'w cael mewn aberoedd, aberoedd afonydd ac ardaloedd arfordirol. Maent yn newid cynefinoedd wrth iddynt dyfu i fod yn oedolion, gan symud tuag at riffiau rhynglanwol a riffiau a gwaddodion islanwol, hyd at 250 cilomedr (km) o'r tir a mor ddwfn â 100 metr (m). Pysgod dŵr cynnes yw sardîns. Er eu bod yn well ganddynt dymheredd dŵr penodol ar gyfer silio (14°C i 15°C yn ddelfrydol), gallant fyw mewn dyfroedd rhwng 8° a 26°C yn gyffredinol. Maent yn fyr eu hoes, yn tyfu'n gyflym ac yn aeddfedu'n gynnar, gan gyrraedd 90% o'u hyd mwyaf ac aeddfedrwydd yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Gall nifer yr wyau y gall benyw eu cynhyrchu mewn tymor silio amrywio ac mae amodau amgylcheddol ac argaeledd bwyd yn effeithio ar hyn.

Disgwylir i newid hinsawdd ddylanwadu ar ddosbarthiad sardîns, gyda thymheredd y môr sy'n cynhesu o bosibl yn ehangu eu hamrediad ymhellach i'r gogledd y tu hwnt i'r FMP. Gallai'r newid hwn gyflwyno cyfleoedd newydd i ddiwydiant pysgota'r DU a'r UE, tra hefyd yn gofyn am fonitro gofalus a rheolaeth addasol i sicrhau ecsbloetio cynaliadwy. Mae Nodau 6 a 7 yn cynnwys camau gweithredu sy'n ystyried ac yn ymateb i'r amodau a'r cyfleoedd newidiol hyn yn nyfroedd yr FMP.

Mae gan sardîns yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd strwythur poblogaeth cymhleth, ac mae ansicrwydd yn parhau ynghylch ffin a graddfa'r cymysgu rhwng sardîns yn y Sianel a'r Môr Celtaidd (ardal ICES 7) a Bae Biscay (ardal ICES 8). Mae gan sardîns yn y Sianel a'r Moroedd Celtaidd gyfraddau twf uwch a mannau silio ar wahân i'r rhai yn stoc Bae Biscay, ac mae pob dosbarth oedran yn bresennol yn y ddwy ardal.

Yn 2017, felly, cafodd stoc y Sianel a'r Moroedd Celtaidd ei wahanu oddi wrth Fae Biscay a'i drin fel uned asesu annibynnol gan ICES. Fodd bynnag, ni allai astudiaethau genetig wahaniaethu'n glir rhwng poblogaethau'r Moroedd Celtaidd a Bae Biscay. Gellid cynnwys casglu tystiolaeth o'r fath yn y cynllun ymchwil a'r camau casglu tystiolaeth o dan nod 3 yr FMP hwn, er mwyn helpu i wella'r wybodaeth sy'n cael ei bwydo i asesiadau stoc ar gyfer y rhywogaeth hon.

## Asesiad stoc a'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf

Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth i roi cyngor ar gyfleoedd pysgota mewn perthynas ag Egwyddorion MSY ar gyfer sardîns yn ardal yr FMP, felly mae'n rhaid i'r FMP nodi polisïau ar gyfer cynnal neu gynyddu lefel hyn (nod 1), yn unol â rhwymedigaethau adran 6(3)(b) o'r Ddeddf.

Mae sardîns yn y Sianel a de'r Moroedd Celtaidd (ardal ICES 7) yn stoc Categori 3 ICES, cyfyngedig o ran data (gweler ICES am fanylion ar ddiffiniadau categorïau) wedi'i hasesu ar ddull rhagofalus. Mae'r uned asesu stoc hon yn cynnwys ardal yr FMP ond mae'n ymestyn y tu hwnt i gwmpas daearyddol yr FMP hwn.

Mae ICES yn cynnal asesiadau o'r stoc sardîns hon yn flynyddol, gan roi cyngor rhagofalus yn seiliedig ar dueddiadau arolwg acwstig blynyddol o arolwg PELTIC (Arolwg Ecosystemau Pelagig Gorllewin Sianel Lloegr a'r Môr Celtaidd Dwyreiniol). Cynhelir arolwg PELTIC gan Cefas, sy'n cynhyrchu amcangyfrif o nifer y sardîns a rhywogaethau pelagig eraill yn ardal yr arolwg (sy'n cwmpasu Gorllewin Sianel Lloegr, y Môr Celtaidd, a Bae Ceredigon yn ardaloedd ICES 7e-f a rhannau o 7a a 7g). Mae'r asesiad yn cymryd canlyniadau arolwg PELTIC fel mynegai o fiomas ac yn cynhyrchu cyngor gan ddefnyddio'r rheol rheoli cynaeafu 1-dros-2.

Nid yw'r rheol 1-dros-2 yn asesiad o MSY, ac mae canllawiau ICES ar y defnydd o'r rheol rheoli cynaeafu hon yn awgrymu nad yw o reidrwydd yn arwain at ecsbloetio MSY. Mae'r canllawiau'n awgrymu tuedd ostyngol o ran opsiynau dal dros amser ar ôl ceisiadau dro ar ôl tro, yn enwedig pan gânt eu cyplysu â'r cyfyngiad cap ansicrwydd o 80% (fel y'i defnyddiwyd ar gyfer sardîns). Felly, mae ICES yn awgrymu y dylid ystyried y rheol hon sy'n seiliedig ar dueddiadau yn rheol rheoli cynaeafu dros dro gyda'r nod o gyflawni dull rheoli gwell o fewn 10 mlynedd. Mae'r rheol 1-dros-2 ar gyfer y stoc hon wedi bod ar waith ers 2021.

Mae rhaglen hunan-samplu pelagig, a ddatblygwyd fel partneriaeth diwydiant-gwyddoniaeth rhwng Cymdeithas Rheoli Sardîns Cernyw (CSMA) a Cefas, wedi bod ar waith ers 2017. Prif nod y rhaglen hunan-samplu oedd datblygu dulliau i awtomeiddio monitro a galluogi capteiniaid a chriwiau pysgota i gyfrannu data dibynadwy sy'n ddibynnol ar bysgodfeydd at y broses asesu ar gyfer stociau sardîns. Ystyrir bellach fod y gyfres amser 8 mlynedd o ddata hyd a phwysau yn ddigonol o ran hyd i'w gwerthuso i'w chynnwys mewn asesiad stoc gwell, yn dilyn egwyddorion MSY, ar gyfer sardîns. Mae’n debyg y byddai hyn yn golygu uwchraddio’r asesiad o'r bysgodfa sardîns i ddull cyfradd gynaeafu gyson (wedi’i gynnwys fel cam gweithredu o dan nod polisi 3 yr FMP hwn).

Mae cyngor diweddaraf ICES, sydd ar gael ar adeg ysgrifennu, yn dynodi tueddiad amrywiol ond cynyddol mewn biomas ers 2018. Mae poblogaethau sardîns yn amrywio'n naturiol rhwng cyfnodau o niferoedd uchel ac isel, yn gysylltiedig â newidiadau yn eu hamgylchedd megis tymheredd y dŵr, argaeledd ac ansawdd bwyd, a cherhyntau'r cefnfor. Yn 2024, amcangyfrifwyd bod biomas sardîns ar gyfer ardal gyfan yr arolwg yn 410,861 tunnell, yr ail werth uchaf a gofnodwyd erioed gan yr arolwg (gweler ffigur 2).




**Ffigur 2. Tueddiadau mewn biomas sardîns**

Mae Ffigur 2 yn dangos tueddiadau mewn biomas sardîns (tunelli) yn seiliedig ar 2 ardal arolwg: 1) mae'r ardal graidd yn cynnwys dyfroedd Lloegr Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren, a arolygwyd yn gyson ers 2013, a 2) mae'r ardal gyfan yn cynnwys yr ardal graidd ynghyd ag Ynysoedd Sili a dyfroedd Ffrainc Gorllewin Sianel Lloegr, a arolygwyd ers 2017. Nodyn: yn 2022, roedd cwmpas yr arolwg yn gyfyngedig, gyda'r amcangyfrif o'r ardal graidd yn adlewyrchu Gorllewin Sianel Lloegr yn unig, ardal lai nag arfer. Amcangyfrifwyd biomas yr arwynebedd cyfan ar gyfer 2022 trwy allosod o'r biomas a welwyd yn yr ardal a arolygwyd. Ffigur wedi'i addasu o Adroddiad Arolwg Llongau Ymchwil arolwg PELTIC 2024 (RV Cefas Endeavour), a gyhoeddwyd yn 2025.

## Pysgota masnachol

Er nad yw'n cael ei reoli gan TAC sy'n benodol i rywogaethau, mae ICES yn darparu cyngor blynyddol ar gyfleoedd pysgota ar gyfer sardîns sy'n berthnasol i'r ardal FMP.

Rhwng 2013 a 2023 (y data diweddaraf sydd ar gael adeg ysgrifennu), glaniwyd cyfanswm o 94,280 tunnell o sardîns o ardal yr FMP gan longau'r DU (gan gynnwys Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron) a'r UE (gweler ffigur 3). Mae hyn yn cynrychioli 39% o gyfanswm y glaniadau (yn ôl pwysau) o'r holl rywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr FMP hwn. O 2016 i 2023, roedd y glaniadau hyn yn cyfrif am 92% o'r sardîns (yn ôl pwysau) a laniwyd yn y DU gyfan.

Amrywiodd pwysau blynyddol cyfunol glaniadau sardîns o ardal yr FMP gan longau'r UE a'r DU dros y 10 mlynedd, o 4,044 tunnell yn 2013 i 13,949 tunnell yn 2016 (gweler ffigur 3). Roedd llongau'r DU yn gyson yn glanio mwy o sardîns na llongau'r UE: 4.5 gwaith yn fwy yn ôl pwysau, a thros 5 gwaith yn fwy yn ôl gwerth dros y cyfnod. Bu cynnydd sydyn yn nifer y pysgod a laniwyd rhwng 2015 a 2016, gyda'r pwysau a laniwyd yn fwy na dyblu a'r gwerth yn codi bron i 80%. O 2016 ymlaen, arhosodd glaniadau'r DU yn gyson uchel

(gweler ffigur 3) ac roeddent yn fwy na glaniadau'r holl rywogaethau eraill yn yr FMP hwn. Mewn cyferbyniad, cyrhaeddodd glaniadau'r UE uchafbwynt yn 2016, ond gostyngodd yn sydyn wedi hynny, gan ddangos amrywioldeb cyfnodol o 2019 ymlaen. Drwy gydol y cyfnod cyfan, roedd sardîns yn cynrychioli 16% o gyfanswm pwysau glaniadau rhywogaethau FMP ar gyfer llongau'r UE yn yr ardal.

Mae data glanio MMO hefyd yn dangos twf ym mhysgodfa sardîns y DU, gyda phwysau a gwerth sardîns a laniwyd gan longau'r DU yn ardal yr FMP yn cynyddu rhwng 2013 a 2016 ac yna'n aros yn gyson uchel. Y tunelli uchaf a gofnodwyd gan longau'r DU oedd 9,540 tunnell yn 2020 a'r gwerth uchaf o laniadau blynyddol oedd £3,252,650 yn 2023. Er gwaethaf y twf hwn, gostyngodd nifer y llongau yn y DU a oedd yn glanio sardîns o 87 yn 2013 i 49 yn 2023, gyda'r gostyngiadau mwyaf wedi'u cofnodi mewn llongau o dan 10m.

Mae hyd y llong a'r offer a ddefnyddir i dargedu sardîns yn amrywio rhwng llongau'r UE a'r DU. Cafodd bron pob sardîn a laniwyd gan longau'r UE rhwng 2013 a 2023 eu dal gan longau dros 40m gan ddefnyddio treillrwydi pelagig (99.9%). O'i gymharu, daeth y rhan fwyaf o'r glaniadau gan longau'r DU (95%) o longau hyd at 15m o hyd, gyda'r gweddill (5%) o longau dros 40m. Rhwydi sân oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o laniadau (tunelli) o longau'r DU sef 50%, ac yna rhwydi tagell amgylchynol (35%), a threillrwydi pelagig (8%).

Mae'n bwysig nodi, er bod rhai pysgotwyr sardîns wedi adrodd bod rhwydi tagell amgylchynol yn cael eu defnyddio, nododd cynrychiolwyr o'r bysgodfa fod hyn yn debygol o fod oherwydd cam-adrodd anfwriadol am y math o offer. Yn ymarferol, mae rhwydi sân a rhwydi tagell amgylchynol wedi cael eu defnyddio i gofnodi glaniadau o'r un math o offer, a elwir yn lleol yn 'rhwydi cylch', a ddefnyddir gan aelodau'r CSMA. Fodd bynnag, nid oes categori na chod offer swyddogol ar gyfer rhwydi cylch, sy'n cael eu dosbarthu'n dechnegol fel rhwydi sân.




**Ffigur 3. Pwysau a gwerth glaniadau sardîns**

Mae Ffigur 3 yn dangos cyfanswm pwysau (tunelli) a gwerth (GBP) blynyddol glaniadau sardîns o ardal yr FMP gan longau'r UE (oren) a llongau'r DU (glas) o 2013 i 2023.

### Pysgodfa sardîns Cernyw

Mae pysgota sardîns yn ardal yr FMP yn digwydd yn bennaf o fewn y terfyn 6 milltir forol (nm) o arfordir deheuol Cernyw gan ddefnyddio cychod bach (o dan 15m). Ar hyn o bryd mae pysgodfa sardîns Cernyw yn cynnwys 14 o 'rwydwyr cylch'. Ar hyn o bryd, mae pob perchennog llong a chapten yn aelodau o'r CSMA. Mae dros 95% o'r sardîns sy'n cael eu dal ym mhysgodfa sardîns Cernyw yn cael eu dal a'u prosesu gan aelodau'r CSMA.

Mae'r bysgodfa'n dymhorol, gan ddechrau yn yr haf (fel arfer ym mis Gorffennaf), gyda'r sardîns yn cyrraedd eu cyflwr gorau (a nodweddir gan gynnwys braster uchel) o'r hydref hyd at ddechrau'r gaeaf. Fel arfer, mae'r tymor yn dod i ben erbyn mis Ionawr neu fis Chwefror, pan fydd pysgota'n dod i ben oherwydd dirywiad yn ansawdd y pysgod. Mae'r bysgodfa'n gweithredu'n bennaf wedi iddi dywyllu ac mae taith bysgota fel arfer yn para o gyn lleied ag ychydig oriau i noson gyfan ac yn cynnwys cyfnod o chwilio ac o leiaf un achos o ddefnyddio rhwyd.

Pysgodfa sardîns Cernyw yw'r unig bysgodfa sardîns ardystiedig MSC yn Ewrop, ac mae'r ardystiad hwn yn darparu pwynt gwerthu unigryw i'r pysgod hyn, y mae pysgotwyr sardîns Cernyw yn tynnu sylw ato fel rhywbeth sydd wedi ychwanegu gwerth economaidd at y cynnyrch ac wedi gwella mynediad i'r farchnad. Mae archwiliadau ail-ardystio i fod i ddechrau yn 2027, gyda'r dystysgrif gyfredol yn dod i ben yn 2028.

### Pwysigrwydd economaidd a diwylliannol

O'r pum rhywogaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr FMP hwn, sardîns yw'r pwysicaf yn economaidd i randdeiliaid y DU ar adeg ysgrifennu. Mae galw sylweddol am sardîns yn y DU. Rhwng 2021 a 2023, roedd 83% o gyflenwad sardîns y DU (pysgod sydd wedi'u glanio neu eu mewnforio i'r DU, yn ogystal â physgod a laniwyd gan longau'r DU dramor) wedi'u bwriadu ar gyfer y farchnad ddomestig, gyda sardîns o Gernyw yn cael eu gwerthu mewn sawl archfarchnad fawr yn y DU. Dros yr un cyfnod, roedd mewnforion sardîns £34.3 miliwn yn fwy na'r hallforion.

Mae pysgota sardîns yn chwarae rhan bwysig yn economi Cernyw gan ei fod yn atyniad sylweddol i dwristiaeth ac yn cefnogi swyddi ledled y gadwyn gyflenwi. Mae pris cyfartalog blynyddol sardîns wedi bod yn sefydlog (rhwng £303 y dunnell a £358 y dunnell ar gyfartaledd rhwng 2016 a 2023), gan ddarparu incwm rhagweladwy i'r pysgotwyr. Gwelir pysgodfa sardîns Cernyw fel rhywbeth sy'n argoeli'n dda i newydd-ddyfodiaid oherwydd hyfywedd economaidd y bysgodfa ac oriau gwaith mwy cymdeithasol na physgodfeydd eraill: mae cychod fel arfer yn gweithredu'n agos at y lan ac yn ymgymryd â theithiau cymharol fyr. Er bod pysgota'n digwydd yn y nos, eglurodd pysgotwyr, yn ystod misoedd tywyllach y gaeaf, y gallant yn aml adael yn gynnar gyda'r nos a dychwelyd o fewn ychydig oriau. Mae'r drefn hon yn caniatáu gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith na physgodfeydd sy'n gofyn am deithiau hir, alltraeth sy'n para sawl diwrnod ar y tro.

Yn ystod datblygiad yr FMP, tynnodd rhanddeiliaid sylw at rwystrau allweddol sy'n cyfyngu ar botensial presennol a dyfodol y pysgodfeydd sardîns. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys y dull rhagofalus presennol o bennu cyngor pysgota ar gyfer y stoc hon, mynediad at feysydd pysgota, argaeledd porthladdoedd addas i lanio ynddynt, capasiti gweithredol a phrosesu, a chyfyngiadau posibl o weithgareddau morol eraill. Mae Nod 7 yr FMP hwn yn

cynnwys camau gweithredu a allai helpu i ddeall y rhwystrau hyn ymhellach, a lle bo modd, mynd i'r afael â nhw er mwyn cefnogi twf diogel a chynaliadwy mewn pysgodfeydd sardîns yn y dyfodol.

Mae gan sardîns werth diwylliannol sylweddol yng Nghernyw. Mae pysgodfa rhwydi cylch sardîns Cernyw wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn hanes, treftadaeth a thraddodiad ac mae'n bwysig ar gyfer hunaniaeth leol a ffordd o fyw. Mae pwysigrwydd hanesyddol a chyfredol y bysgodfa yn cael ei adlewyrchu mewn traddodiadau lleol, gwyliau, seilwaith a chelf sy'n dathlu sardîns. Mae Nod 7 yr FMP hwn yn cynnwys cam gweithredu i gydweithio â rhanddeiliaid i ddeall sut y gellir cadw hunaniaeth ddiwylliannol ac arferion traddodiadol yn y pysgodfeydd hyn a physgodfeydd eraill yr FMP.

# Brwyniaid

## Bioleg ac ecoleg

Mae brwyniaid yn gymharol newydd i ddyfroedd y gogledd, a chredir eu bod ar eu terfyn mwyaf gogleddol yn yr ardal ddaearyddol a gwmpesir gan yr FMP hwn. Fel y manylir yn y Datganiad Tystiolaeth, roeddent i'w cael yn draddodiadol yn ne Môr y Gogledd tan ddechrau'r 1930au pan gollwyd eu prif gynefin silio. Ar ôl degawdau o fod bron yn absennol, ailymddangosodd brwyniaid yng nghanol y 1990au ac mae'r niferoedd wedi cynyddu.

Mae brwyniaid yn tyfu'n gyflym ac yn byw am uchafswm o 5 mlynedd. Maen nhw'n ffafrio tymheredd dŵr cynnes o tua 15 gradd C i silio. Mae dyfroedd bas y glannau yn cynhesu gyflymaf ac felly maent yn cael eu ffafrio gan frwyniaid yn yr ardaloedd gogleddol hyn, ond gallant fyw mewn dyfroedd hyd at 400m o ddyfnder. Ar ôl silio yn gynnar yn yr haf yn ne Môr y Gogledd, credir bod brwyniaid yn mudo i ddyfroedd dyfnach Sianel Lloegr i dreulio'r gaeaf. Mae brwyniaid wedi dod yn fwy cyffredin yn y Môr Celtaidd yn ystod yr hydref.

## Asesiad stoc a'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf

Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth i roi cyngor ar gyfleoedd pysgota mewn perthynas ag egwyddorion MSY ar gyfer brwyniaid yn ardal yr FMP, felly mae'n rhaid i'r FMP nodi polisïau ar gyfer cynnal neu gynyddu lefel y stoc hon (nod 1), yn unol â rhwymedigaethau adran 6(3)(b) o'r Ddeddf.

Ar hyn o bryd nid yw ICES yn darparu asesiad stoc na chyngor ar gyfer brwyniaid o fewn ardal yr FMP ond mae'n ystyried bod brwyniaid mewn dyfroedd gogleddol (i'r gogledd o 48 gradd N) yn uned ar wahân yng Ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd. Mae arsylwadau arolwg wedi cadarnhau bod brwyniaid ôl-larfa o Fae Biscay wedi symud i'r gogledd i Sianel Lloegr yn ystod y blynyddoedd diwethaf lle maent o bosibl yn cymysgu â brwyniaid y gogledd.

Fel sardîns, mae poblogaethau brwyniaid yn amrywio'n naturiol rhwng cyfnodau o niferoedd uchel ac isel, yn gysylltiedig â newidiadau yn eu hamgylchedd megis tymheredd

y dŵr, argaeledd bwyd, a cherhyntau'r cefnfor. Heb asesiad stoc, mae dealltwriaeth o iechyd brwyniaid yn ardal yr FMP yn gyfyngedig ond mae tystiolaeth bod y maint y mae brwyniaid yn cyrraedd aeddfedrwydd wedi bod yn lleihau ledled Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd.

Yn 2024, adroddodd arolwg PELTIC fiomas brwyniaid o 13,112 tunnell, yr isaf a gofnodwyd yn y gyfres amser ers 2017. Dilynodd y dirywiad gynnydd sylweddol mewn stociau brwyniaid a welwyd yn 2023 yng Ngorllewin Sianel Lloegr a'r Môr Celtaidd, gan dynnu sylw at amrywioldeb y stoc hon o fewn ardal yr FMP (gweler ffigur 4).

Oherwydd y tebygrwydd mewn nodweddion biolegol rhwng brwyniaid a sardîns, mae'n debygol y bydd dull asesu stoc ac yn y pen draw dull asesu MSY yn berthnasol ar gyfer y stoc hon fel y'i defnyddir ar gyfer sardîns. Mae'r camau hyn wedi'u hamlinellu yn nod 3 yr FMP hwn.




**Ffigur 4. Tueddiadau mewn biomas brwyniaid**

Mae Ffigur 4 yn dangos tueddiadau mewn biomas brwyniaid (tunelli) yn seiliedig ar 2 ardal arolwg: 1) mae'r ardal graidd (a ddangosir mewn coch, dde uchaf) yn cynnwys dyfroedd Lloegr Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren, a arolygwyd yn gyson ers 2013, a 2) mae'r ardal gyfan (a ddangosir mewn glas, dde isaf) yn cynnwys yr ardal graidd ynghyd ag Ynysoedd Sili a dyfroedd Ffrainc Gorllewin Sianel Lloegr, a arolygwyd ers 2017.

Nodyn: nid oedd amcangyfrif biomas ar gael ar gyfer yr ardal graidd yn 2024. Yn 2022, roedd cwmpas yr arolwg yn gyfyngedig (a ddangosir mewn llinellau toredig coch a glas). Dim ond Gorllewin Sianel Lloegr y mae'r amcangyfrif o'r ardal graidd yn ei adlewyrchu,

ardal lai nag arfer. Amcangyfrifwyd biomas yr arwynebedd cyfan ar gyfer 2022 trwy allosod o'r biomas a welwyd yn yr ardal a arolygwyd. Ffigur wedi'i addasu o Adroddiad Arolwg Llongau Ymchwil arolwg PELTIC 2024 (RV Cefas Endeavour), a gyhoeddwyd yn 2025.

## Pysgota masnachol

Mae brwyniaid yn bysgodfa sy'n dod i'r amlwg ond yn amrywiol yn ardal yr FMP, gyda glaniadau'n amrywio'n sylweddol rhwng 2013 a 2023 (y data gorau sydd ar gael) (gweler ffigur 5). Yn ystod y cyfnod hwn, glaniodd llongau'r DU a'r UE gyfanswm o 3,972 tunnell o frwyniaid o ardal yr FMP, gyda llongau'r DU yn cyfrif am 65% o hyn. Gwerth glaniadau'r DU oedd oddeutu £2,562,802, a gwerth  glaniadau'r UE oedd £355,976. O 2016 i 2023, roedd glaniadau brwyniaid yn ardal yr FMP yn cyfrif am 99% o'r brwyniaid (yn ôl pwysau) a laniwyd yn y DU gyfan.

Cyrhaeddodd glaniadau'r DU uchafswm yn 2014 o 785 tunnell, tra bod llongau'r UE wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2015 sef 610 tunnell. Ers 2020, mae glaniadau wedi aros yn gymharol isel ar gyfer y ddau fflyd, gyda chyfanswm cyfunol o 812 tunnell wedi'u glanio rhwng 2020 a 2023. Daliwyd tua 90% o'r brwyniaid a laniwyd o ardal yr FMP yn Sianel Lloegr (ardal ICES 7e), gyda symiau llai wedi'u dal ym Môr Hafren (ardal ICES 7f) a'r Môr Celtaidd (ardaloedd ICES 7g a 7h).

O'r glaniadau (mewn tunelli) o longau'r DU rhwng 2013 a 2023, daeth 92% o longau hyd at 15m o hyd, gyda'r 8% sy'n weddill o longau dros 40m. Treillrwydi pelagig (treillrwydi estyllod dŵr canol a threillrwydi pâr) oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o laniadau sef 43%, a ddefnyddiwyd ar draws llongau o wahanol feintiau, gan gynnwys y rhai hyd at 15m a thros 40m. Ymhlith llongau'r DU hyd at 15m, cyfrannodd treillrwydi pelagig (treillrwydi estyllod dŵr canol bron yn gyfan gwbl) at 38% o'r glaniadau, ac yna rhwydi sân (31%) a rhwydi tagell amgylchynol (21%).

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf (2021 i 2023), gwnaethpwyd y rhan fwyaf (96%) o laniadau brwyniaid gan longau'r DU yn Newlyn gan longau hyd at 15m o hyd, gan ddefnyddio rhwydi sân yn bennaf a rhwydi tagell amgylchynol. Nododd aelodau'r CSMA, sy'n pysgota o Newlyn ac yn glanio yno, fod brwyniaid weithiau'n cael eu dal yn y rhwydi cylch a ddefnyddir i dargedu sardîns.

Rhwng 2013 a 2023, roedd glaniadau gan longau UE bron yn gyfan gwbl gan longau dros 40m o hyd gan ddefnyddio treillrwydi pelagig (treillrwydi estyllod dŵr canol a threillrwydi pâr), gyda llai nag 1 dunnell wedi'i chofnodi o fathau eraill o offer. Cafodd yr holl ddaliadau brwyniaid gan longau'r UE o fewn dyfroedd FMP eu glanio yn yr UE.




**Ffigur 5. Cyfanswm pwysau a gwerth blynyddol y glaniadau**

Mae Ffigur 5 yn dangos cyfanswm pwysau (tunelli) a gwerth (GBP) blynyddol glaniadau sardîns o ardal yr FMP gan longau'r UE (oren) a llongau'r DU (glas) o 2013 i 2023. Dim ond cyfanswm pwysau a gwerthoedd y DU a gyflwynir ar gyfer 2013 a 2023 oherwydd absenoldeb data glaniadau'r UE ar gyfer y blynyddoedd hyn.

**Pwysigrwydd economaidd a diwylliannol**

Rhwng 2021 a 2023, roedd ychydig dros hanner (56%) o gyflenwad brwyniaid y DU wedi'i fwriadu ar gyfer y farchnad ddomestig, ac yn ystod y cyfnod hwn, mewnforiodd y DU £15.5 miliwn yn fwy o frwyniaid nag a allforiwyd. Er nad oes gan frwyniaid yr un arwyddocâd economaidd a diwylliannol yn ne-orllewin Lloegr â sardîns, maent yn bwysig yn economaidd ac yn ddiwylliannol mewn rhannau o Ewrop fel Sbaen, yr Eidal, Ffrainc a Phortiwgal.

Mae aelodau'r Bartneriaeth FMP wedi mynegi bod diddordeb gan brynwyr a gwerthwyr domestig mewn datblygu marchnad ar gyfer brwyniaid o ffynonellau lleol a bod y gwerth yn sylweddol uwch nag ar gyfer sardîns. Fodd bynnag, mae pysgotwyr wedi nodi na ellir dibynnu ar frwyniaid  fel pysgodfa fasnachol hyfyw ar hyn o bryd. Yn hytrach, mae pysgota am frwyniaid yn gyfleol i raddau helaeth, yn dibynnu ar argaeledd yn hytrach na thargedu cyson. Mae pris cyfartalog blynyddol brwyniaid hefyd wedi amrywio'n sylweddol rhwng 2016 a 2023, gyda phrisiau isaf o £391 y dunnell yn 2022 ac uchafsymiau o £1,127 y dunnell yn 2018, gan ei gwneud hi'n anodd cael sefydlogrwydd economaidd.

Disgwylir i newid hinsawdd ddylanwadu ar ddosbarthiad brwyniaid, gyda thymheredd y môr sy'n cynhesu o bosibl yn ehangu eu hamrediad ymhellach i'r gogledd. Gallai hyn arwain at fwy o bresenoldeb brwyniaid o fewn dyfroedd FMP. O ganlyniad, efallai y bydd diddordeb ac ymdrech bysgota gynyddol gan longau'r DU a'r UE, yn enwedig os bydd poblogaethau brwyniaid ar gael yn fwy cyson. Gallai'r newid hwn gyflwyno cyfleoedd newydd i ddiwydiant pysgota'r DU a'r UE, tra hefyd yn gofyn am fonitro gofalus a rheolaeth addasol i sicrhau ecsbloetio cynaliadwy. Mae Nod 7 yn yr FMP hwn yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn galluogi gwell dealltwriaeth o bysgodfeydd brwyniaid yn nyfroedd yr FMP, ac yn helpu i wireddu manteision economaidd a chymdeithasol yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â nhw.

# Penwaig

## Bioleg ac ecoleg

Yn ardal yr FMP, mae penwaig fel arfer yn mesur 20 i 30cm ac yn byw tan tua 7 oed (gyda rhywfaint o amrywiad rhwng poblogaethau). Penwaig y Môr Celtaidd sydd â'r twf cyflymaf yn ystod blwyddyn gyntaf eu bywyd ac maent yn aeddfedu yn eu hail flwyddyn, tra bod pysgod sy'n tyfu'n arafach yn aeddfedu yn eu trydedd flwyddyn. Ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd o fioleg penwaig ym Môr Hafren a gorllewin Sianel Lloegr. Er bod data ar gael i fesur cyfraddau twf ac aeddfedrwydd o bosibl, nid oes cynlluniau i wneud hyn wedi'u datblygu eto. Gellid ystyried hyn o fewn camau gweithredu o dan nod 3.

Mae'n well gan benwaig ddyfroedd rhwng 100 a 150m o ddyfnder a lle mae llawer o söoplancton i fwydo arno. Maen nhw'n dod at ei gilydd i ddodwy eu hwyau mewn sypiau ar wely'r môr lle mae gwaddodion bras fel tywod, graean, cregyn a cherrig gwastad a lle mae'r ceryntau neu'r llanw'n gryf (mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o ardal yr FMP yn darparu cynefin silio posibl i benwaig). Mae gan benwaig synnwyr clyw cryf ac maen nhw'n defnyddio hwn i adnabod eu safleoedd silio yn seiliedig ar y gwahanol synau y mae gwahanol waddodion yn eu gwneud.

Mae rhai safleoedd silio pwysig hysbys ar gyfer penwaig ym Môr Hafren. Mae'n hysbys bod penwaig y Môr Celtaidd yn silio yn agos at arfordir de Iwerddon ar dir sy'n cynnwys graean neu garreg wastad. Mae'r mannau silio ar arfordir Iwerddon y tu allan i ardal ddaearyddol yr FMP hwn, ond mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried y stociau hyn yn yr FMP mewn cyd-destun daearyddol ehangach, gan y gallai effeithiau a brofir y tu allan i ardal yr FMP ddylanwadu ar iechyd y stoc o fewn dyfroedd yr FMP (a ystyrir o dan nod 4 yr FMP hwn). Gwyddys bod penwaig y Môr Celtaidd yn cymysgu â phoblogaethau cyfagos, gan gynnwys penwaig Môr Iwerddon, ond mae lefel y cymysgu rhwng poblogaethau yn ansicr.

## Asesiad stoc a’r cynnyrch cynaliadwy mwyaf

Mae gan IFCA Dyfnaint a Hafren, IFCA Cernyw ac IFCA Deheuol is-ddeddfau sy'n ymwneud â gweithgarwch pysgota â rhwydi a chyfyngiadau ar faint cychod. Mae ardal IFCA Ynysoedd Sili hefyd o fewn ardal yr FMP ac mae ganddi gyfyngiad ar faint llongau. Mae manylion pellach am yr is-ddeddfau cyfredol a all reoli, neu gyfrannu at reoli, pysgodfeydd pelagig a'u hamgylchedd o fewn ardal yr FMP ar gael ar wefannau IFCA a Llywodraeth Cymru:

- IFCA Deheuol
- IFCA Dyfnaint a Hafren
- IFCA Cernyw
- IFCA Ynysoedd Sili
- Llywodraeth Cymru

### Rheoli pysgodfeydd glannau lleol gwirfoddol o ran sardîns

Ochr yn ochr â rheolaeth a roddwyd ar waith gan IFCAs, mae gan y CSMA, a ffurfiwyd yn 2004, God Ymddygiad y mae aelodau (perchnogion llongau a chapteiniaid) yn cytuno i gydymffurfio ag ef. Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at gyflawni achrediad MSC ar gyfer pysgodfa sardîns Cernyw. Mae Cod Ymddygiad CSMA yn cynnwys terfyn daliadau blynyddol ar gyfer y bysgodfa sardîns o amgylch arfordir Cernyw (a nodir uchod), yn ogystal â therfynau ar aelodaeth, hyd y llong, hyd pen y rhwyd, a gofynion maint y rhwyll. Mae Nod 1 yn yr FMP hwn yn cynnwys cam gweithredu sy'n ystyried a fyddai'n ymarferol ac yn fuddiol ehangu cwmpas daearyddol unrhyw un o'r mesurau rheoli hyn i raddfa ardal yr FMP.

## Monitro a gorfodi cyfredol

Mae yna amrywiol raglenni monitro sy'n berthnasol i bysgodfeydd a gwmpesir gan yr FMP hwn.

Nod Menter Lleihau Sgil-ddaliadau (BMI) a rhaglen Clean Catch y DU yw lleihau sgil-ddaliadau rhywogaethau morol sensitif ym mhysgodfeydd y DU. Mae BMI yn darparu fframwaith strategol sy'n canolbwyntio ar fonitro, nodi mannau problemus, mesurau lliniaru, a chydweithio rhyngwladol. Mae Clean Catch yn ategu hyn drwy uno rhanddeiliaid i ddatblygu a phrofi atebion ymarferol drwy dreialon ac ymgysylltu â'r diwydiant.

Mae Monitro Electronig o Bell (REM) wedi'i osod ar un llong dreillio pelagig fawr fel rhan o gyfnod mabwysiadu cynnar rhaglen REM Defra. Unwaith y bydd cwestiynau gweithredu wedi cael eu datrys yn ddigonol, bydd REM yn orfodol ar bob llong dreillio pelagig dros 24m sy'n pysgota yn nyfroedd Lloegr. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio'r defnydd o dechnolegau fel REM, i ddiogelu stociau a'r amgylchedd ymhellach er mwyn sicrhau cynaliadwyedd. Bydd hyn yn gymesur ac yn briodol i natur a phroffil y fflyd bysgota yng Nghymru.

Mae rhai llongau y glannau, gan gynnwys rhai aelodau o'r CSMA, yn defnyddio REM a CCTV yn wirfoddol ar gyfer cydymffurfiaeth fewnol, gan rannu lluniau ag IFCA Cernyw pan fo angen. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn treialon Clean Catch ac Insight360, sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i fonitro rhyngweithiadau bywyd gwyllt.

Yn ogystal â'r uchod, cyfrifoldeb y MMO a'r IFCAs (yn Lloegr) a Llywodraeth Cymru (yng Nghymru) yw rheoli a gorfodi arferol, gan gynnwys mathau eraill o fonitro (megis systemau monitro llongau) ac archwiliadau o laniadau.

Yn 2022, Cymru oedd y rhan gyntaf o'r DU i gyflwyno iVMS ar gyfer cychod o dan 12m sy'n pysgota ym mharth Cymru. Ym mis Mai 2025, roedd yr MMO yn ei gwneud yn ofynnol i bob llong o dan 12m yn Lloegr ddefnyddio systemau monitro llongau glannau (I-VMS), gan drosglwyddo data lleoliad bob tair munud. Y nod yw ymestyn hyn i bob llong o dan 12m yn nyfroedd Lloegr. Mae defnyddio systemau monitro llongau (VMS) wedi bod yn orfodol ar gyfer pob llong dros 12m ers 2012.

Ers 2021, mae amodau trwydded MMO yn ei gwneud yn ofynnol i adrodd am anafiadau, marwolaethau neu sgil-ddaliadau mamaliaid morol oherwydd gweithgarwch pysgota o fewn 48 awr i daith. Mae gofyniad cyfreithiol hefyd i gofnodi tafliadau rhywogaethau pysgod nad ydynt yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth glaniadau. Mae hyn yn cynnwys rhywogaethau gwaharddedig a restrir mewn trwyddedau cychod pysgota, fel elasmobranciaid sensitif fel heulforgwn a morgwn trwynog. Nid yw'r gofynion cyfreithiol i hunan-adrodd sgil-ddaliadau yn ymestyn i adar môr.

Mae Nod 5 o dan yr FMP hwn yn cefnogi ystyried pysgodfeydd pelagig mewn mentrau monitro a lliniaru sgil-ddaliadau presennol, a gwelliannau yng nghadernid data. Efallai y bydd angen newidiadau i fonitro a gorfodi yn y dyfodol.

# Polisïau FMP

Mae wyth nod polisi wedi'u nodi i helpu i gyflawni'r weledigaeth gyffredinol a nodwyd ar gyfer yr FMP, ac maent yn cysylltu ag amcanion y Ddeddf. Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau partneriaeth lefel uchel a nodwyd a chyd-ddatblygwyd gan y Bartneriaeth FMP drwy ystyried deddfwriaeth berthnasol, llinell sylfaen dystiolaeth fanwl, a bylchau tystiolaeth (gweler y datganiad tystiolaeth am fanylion y broses a ddefnyddir ar gyfer datblygu nodau).

Mae nodau polisi 1, 2, a 3 yn mynd i'r afael â'r gofynion o dan adran 6(3) o'r Ddeddf. Ar gyfer stociau lle nad oes digon o dystiolaeth i ganiatáu asesiad o MSY (sardîns, brwyniaid, a phenwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren), mae nod 1 yn amlinellu'r camau gweithredu sydd eu hangen i gynnal neu gynyddu lefelau'r stociau hyn. Ar gyfer stociau lle mae'r dystiolaeth yn ddigonol i ganiatáu asesiad o MSY (penwaig y Môr Celtaidd, marchfecryll, a brwyniaid arian mawr), mae nod 2 yn amlinellu'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyfrannu o leiaf at gynnal neu adfer biomas stoc i lefelau sy'n gallu cynhyrchu MSY. Mae Nod 3 yn amlinellu'r camau sy'n angenrheidiol i weithio tuag at gael y dystiolaeth wyddonol sy'n angenrheidiol i alluogi asesiad o MSY y stoc i gael ei wneud ar gyfer y stociau hynny na ellir eu hasesu ar y lefel hon ar hyn o bryd.

Mae'n annhebygol y bydd cyflawni MSY yn unig yn ddigon i gyflawni'r weledigaeth gyfan ar gyfer yr FMP (er enghraifft, ymateb i ystyriaethau ecosystem, economaidd a chymdeithasol ehangach), felly mae'r polisïau sy'n weddill yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain. Mae nod polisi 4 yn gweithio i nodi a gweithio tuag at weithredu'r dulliau mwyaf priodol sy'n seiliedig ar ecosystemau i reoli'r pysgodfeydd o fewn yr FMP hwn, a deall risgiau a chyfleoedd o ystyriaethau ecosystemau ehangach, a anogir yn y Ddeddf a'r JFS a bydd yn cefnogi cyflawni GES.

Fel y nodir yn y JFS, mae pysgota cynaliadwy yn golygu bod ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn cael eu cydbwyso'n briodol wrth reoli ein pysgodfeydd, er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Felly, mae nodau polisi 5 i 8 yn cwmpasu themâu ehangach, a all gyfrannu at sicrhau pysgota cynaliadwy ar gyfer y stociau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys deall a lleihau effeithiau ar rywogaethau nad ydynt yn rhai targed, gan gynnwys sgil-ddaliadau, sy'n gysylltiedig â physgota am y stociau hyn (nod 5), lleihau effaith pysgota ar newid hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau newid hinsawdd (nod 6), gwella dealltwriaeth o fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol (nod 7), a pharhau â rheolaeth gydweithredol ac addasol (nod 8).

Gyda'i gilydd, mae nodau'r FMP yn nodi camau gweithredu ar gyfer cyflawni dull cynaliadwy o reoli'r pysgodfeydd hyn a gwella rheolaeth effeithiol yn y tymor hir. Fe'u datblygwyd gyda'r ddealltwriaeth bod rhai o'r stociau hyn yn cael eu rheoli ar y cyd ac felly bod cyfleoedd pysgota cyffredinol ar y stociau cysylltiedig yn cael eu pennu trwy drafodaethau rhyngwladol (penwaig, marchfecryll a brwyniaid arian mawr). Mae potensial ar gyfer tensiwn tymor byr rhwng rhai o'r nodau, ac mae yna hefyd amrywiol ddulliau cyflawni, o weithredu gan y llywodraeth i astudiaethau gwyddonol a mesurau ac ymchwil dan arweiniad y diwydiant. Ar ben hynny, bydd angen blaenoriaethu'r camau gweithredu o

fewn y nodau eu hunain ar draws FMPs i sicrhau bod ymdrech briodol yn cael ei chanolbwyntio tuag at stociau sydd fwyaf mewn perygl o or-ecsbloetio.

## Nod polisi 1: cynaeafu stociau sardîns, brwyniaid a phenwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren yn gynaliadwy, gyda'r nod cyffredinol o gynnal neu gynyddu lefelau'r stociau

### Rhesymwaith

Ar gyfer stociau lle ar hyn o bryd nid yw'r dystiolaeth yn ddigonol i asesu MSY (sardîns, brwyniaid, penwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren), mae adran 6(3)(b) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r FMP nodi polisïau ar gyfer cynnal neu gynyddu lefel y stociau hyn. Rhaid datblygu'r polisïau hyn gan ddefnyddio'r dull rhagofalus fel y'i diffinnir yn adran 1(10) o'r Ddeddf. Nod y nod hwn yw mynd i'r afael â'r gofynion hyn drwy ystyried y canlynol:

Ar gyfer sardîns a brwyniaid (sy'n NQS), mae tystiolaeth yn awgrymu bod y raddfa bysgota bresennol ar gyfer y ddwy stoc a'r mesurau gwirfoddol presennol sydd ar waith ar gyfer pysgodfa sardîns Cernyw yn galluogi cynaeafu cynaliadwy o'r stociau ar y raddfa leol. Fodd bynnag, ar draws ardal gyfan yr FMP, mae'r dystiolaeth wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch i ba raddau y mae marwolaethau pysgod o ganlyniad i bysgota yn cael eu rheoli, yn enwedig wrth i ddosbarthiadau stoc newid gyda newid hinsawdd, a allai arwain at newid diddordeb ac ymdrech pysgota. Cynigir dau gam gweithredu yn y tymor canolig i'r tymor hir i fynd i'r afael â hyn.

Nid oes asesiad lefel MSY ar gyfer stoc penwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren, ond mae'r TAC wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac ychydig iawn o bwysau pysgota sydd ar y stoc hon. Bydd defnyddio'r cyngor gorau sydd ar gael i bennu cyfleoedd pysgota, fel yr amlinellir yn y camau gweithredu isod, yn cyfrannu at gynyddu lefelau'r stoc hon (ynghyd â chamau rheoli ehangach sy'n seiliedig ar ecosystemau a ystyrir o dan nod 4, megis y rhai sy'n ystyried llwybrau i amddiffyn cynefinoedd silio penwaig allweddol).

Bydd hyfywedd ac effeithiau unrhyw fesurau rheoli a gynigir i'w gweithredu yn cael eu hystyried. Bydd angen i unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu o'r camau gweithredu nod 1 tymor canolig i hirdymor hyn ystyried blaenoriaethau ar draws pob FMP, o ran yr anghenion mwyaf dybryd i weithredu unrhyw fesurau newydd ar gyfer stociau FMP.

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr (1 i 2 flynedd)

- ar gyfer penwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren, parhau i bennu cyfleoedd pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael

- ar gyfer penwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren, parhau i weithio gyda phartneriaid Gwladwriaethau Arfordirol trwy drafodaethau rhyngwladol gyda'r nod o adfer neu gynyddu cynaeafu cynaliadwy'r stoc hon

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i hirdymor (mwy na 3 blynedd)

- ystyried a ddylid ehangu cwmpas daearyddol unrhyw un o'r mesurau technegol ar raddfa leol gyfredol a ddefnyddir ar gyfer NQS i raddfa ardal yr FMP. Gallai hyn gynnwys y mesurau gwirfoddol a ddefnyddir gan y CSMA ac unrhyw fesurau technegol lleol perthnasol a weithredir gan Lywodraeth Cymru, MMO neu IFCAs
- ystyried a ddylid symud ymlaen i reoli sardîns (ac o bosibl yn ddiweddarach, brwyniaid) drwy ddyrannu cwota, ochr yn ochr â'r mesurau gwirfoddol presennol sydd ar waith ar gyfer y stociau hyn
- ystyried adolygiad ehangach o effeithiolrwydd y rheolaeth sydd ar waith ar gyfer pob stoc, o ran sut mae'n cyfrannu at gyflawni nodau ehangach yr FMP

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcan tystiolaeth wyddonol
- amcan ecosystem

## Nod polisi 2: cynaeafu stociau penwaig y Môr Celtaidd, marchfecryll a brwyniaid arian mawr yn gynaliadwy, gyda'r nod cyffredinol o gynnal neu adfer biomas y stociau uwchlaw'r lefel sy'n gallu cynhyrchu MSY neu ddirprwy addas

### Rhesymwaith

Ar gyfer stociau lle mae digon o dystiolaeth ar gael i asesu MSY (penwaig y Môr Celtaidd, marchfecryll y Gorllewin, a brwyniaid arian mawr), mae adran 6(3)(a) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r FMP nodi'r polisïau sydd o leiaf yn cyfrannu at adfer neu gynnal y stoc ar MSY. Mae'r nod hwn yn anelu at fynd i'r afael â'r gofynion hyn.

Y nod ar gyfer penwaig y Môr Celtaidd a marchfecryll y Gorllewin yw adfer biomas y stociau hyn i lefelau sy'n gallu cynhyrchu MSY. Gan fod y cyfleoedd pysgota ar gyfer y stociau hyn yn cael eu pennu drwy drafodaethau rhyngwladol, a bod yr UE yn dal y rhan

fwyaf o'r dyraniad cwota, mae'n debyg y bydd mesurau i adfer biomas y stociau hyn yn cael eu pennu drwy drafodaethau rhyngwladol. Bydd camau gweithredu o dan nod 4 yr FMP sy'n ystyried dulliau rheoli sy'n seiliedig ar ecosystemau a llwybrau posibl i amddiffyn cynefinoedd allweddol ar gyfer y rhywogaethau hyn hefyd yn cyfrannu at adfer y stociau hyn.

Ar gyfer brwyniaid arian mawr mae tystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod y rheolaeth bresennol yn cael ei hystyried yn ddigonol ar gyfer rheolaeth gynaliadwy ar y stoc hon o fewn ardal yr FMP. Fodd bynnag, mae'r ecosystem forol yn amgylchedd deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau yn y dyfodol ar gyfer y stoc hon. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth i'r FMP hwn gael ei fonitro a'i adolygu.

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr (1 i 2 flynedd)

- ar gyfer pob stoc a nodir yn y nod hwn, parhau i bennu cyfleoedd pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael
- ar gyfer pob stoc a amlinellir yn y nod hwn, parhau i weithio gyda phartneriaid Gwladwriaethau Arfordirol trwy drafodaethau rhyngwladol gyda'r nod o adfer neu gynnal biomas stociau

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcan tystiolaeth wyddonol
- amcan ecosystem

## Nod polisi 3: ceisio gwella'r sail dystiolaeth ar gyfer pob stoc, gan gynnwys caniatáu asesiad o MSY neu ddirprwy addas lle bo angen

### Rhesymwaith

Mae Adran 6 (3) o'r Ddeddf yn amlinellu bod rhaid i FMPs nodi a yw'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn ddigonol i alluogi'r awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol i wneud asesiad o MSY y stoc. Os nad yw'r dystiolaeth yn ddigonol, rhaid i'r FMP nodi'r camau (os o gwbl) y mae'r awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol yn bwriadu eu cymryd i gael y dystiolaeth wyddonol sy'n angenrheidiol i alluogi gwneud asesiad o MSY y stoc.

Nod y nod hwn yw cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer asesiadau stoc a chyngor pysgota, gan symud tuag at gael asesiad o MSY neu ddirprwy addas ar gyfer y stociau hynny nad

oes ganddynt asesiad o'r fath ar hyn o bryd (sardîns, brwyniaid, a phenwaig Môr Hafren a Gorllewin Sianel Lloegr). Mae camau gweithredu tymor byr penodol yn ymwneud â dulliau asesu stoc ar gyfer sardîns, a fyddai'n defnyddio data sydd ar gael ar hyn o bryd i fwydo i mewn i werthusiad o strategaeth reoli er mwyn galluogi asesiad o'r stoc yn ôl y dull MSY.

Er mai'r prif nod yw gwella'r sail wyddonol ar gyfer penderfyniadau rheoli, gall y cam gweithredu hwn hefyd helpu i gynnal ardystiad MSC ar gyfer pysgodfa sardîns Cernyw, sy'n ganlyniad sy'n cyfrannu at hyfywedd economaidd a sefydlogrwydd ehangach y sector. Mae'r nod hwn hefyd yn cwmpasu casglu a defnyddio rhagor o dystiolaeth a data hanesyddol, lle bo'n briodol, i wella ansawdd asesiadau ar gyfer stociau brwyniaid a phenwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren, a allai gyfrannu at weithio tuag at asesiad o MSY yn y dyfodol (er, ar gyfer pob un o'r stociau hyn, mae'n annhebygol y bydd asesiad o MSY yn cael ei gyflawni o fewn amserlen yr FMP hwn oherwydd y diffyg data sydd ar gael ar hyn o bryd).

Mae'r camau tymor canolig i hirdymor hyn hefyd yn cwmpasu stociau sydd eisoes ag asesiad MSY neu ddirprwy addas ond lle mae bylchau sylweddol yn y dystiolaeth yn parhau (penwaig y Môr Celtaidd, marchfecryll y gorllewin a brwyniaid arian mawr). Er enghraifft, bydd gwell dealltwriaeth o gymysgu stoc a hanes bywyd yn arwain at fwy o gywirdeb mewn asesiadau a chyngor, yn enwedig o ystyried ansicrwydd ynghylch ffiniau stoc.

I wneud hyn, mae angen cydweithio i ddeall pa ddata sydd eisoes yn cael ei gasglu/a allai gael ei gasglu gan asiantaethau'r llywodraeth, diwydiant a/neu'r byd academaidd, i gefnogi'r camau gweithredu hyn. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd ffrydiau gwaith presennol o fewn Defra (datblygu Strategaeth Dystiolaeth yr FMP), sy'n cael ei datblygu ar lefel rhaglen yr FMP) yn cyfrannu at gwblhau'r camau gweithredu hyn. Mae'n bwysig nodi y bydd yr uchelgeisiau hyn yn cael blaenoriaeth ar draws pecyn cyflawni cyfan yr FMP, a bod yr awgrymiadau hyn yn ystyriaethau o sut i wella'r rheolaeth bresennol i gyflawni gweledigaeth yr FMP hwn.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr (1 i 2 flynedd)

- ar gyfer pob stoc, ystyried amlinellu anghenion ymchwil ar gyfer cynhyrchu neu wella asesiadau stoc lle bo angen
- ystyried datblygu'r rheol rheoli cynaeafu gyfredol ar gyfer sardîns i'r dull cyfradd cynaeafu cyson er mwyn galluogi asesiad dull MSY o'r stoc

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i hirdymor (mwy na 3 blynedd)

Parhau i gefnogi casglu tystiolaeth ar gyfer gwella asesiadau stoc a sicrhau bod data sydd ar gael yn cael ei ddarparu i'r gweithgorau asesu perthnasol.
Yn benodol, gallai'r cam gweithredu hwn ystyried:

- datblygu dulliau asesu stoc a chyngor pysgota gan ddefnyddio'r arolwg PELTIC presennol yn nyfroedd Cymru a Lloegr a data a gasglwyd gan y diwydiant i symud tuag at ddull asesu MSY o'r stoc (brwyniaid)
- defnyddio data wyau o arolygon o fewn asesiadau stoc (ar gyfer sardîns a brwyniaid)
- tystiolaeth well i lywio diffinio a chymysgu stociau (yn enwedig ar gyfer penwaig ym Môr Hafren a Gorllewin Sianel Lloegr, sardîns a marchfecryll),
- datblygu gwell dealltwriaeth o risgiau, effeithiau a chyfleoedd newid hinsawdd (i bob stoc)
- y defnydd o ddata pysgodfeydd hanesyddol, lle bo'n briodol

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcan tystiolaeth wyddonol
- amcan ecosystem
- amcan newid hinsawdd

## Nod polisi 4: nodi a chefnogi gweithredu dulliau rheoli pysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystemau sy'n briodol ar gyfer pysgodfeydd pelagig yn y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr

### Rhesymwaith

Mae Adran 10(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud â physgodfeydd a physgota yn unol â'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y JFS. Mae'r JFS yn amlinellu y bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ecosystemau o reoli ein pysgodfeydd. Bydd hyn hefyd yn cefnogi cyflawniad Statws Amgylcheddol Da ac ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ehangach yr FMP.

Mae'r nod hwn yn ystyried ffactorau ecolegol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach, gan gynnwys pwysau pysgota a phwysau nad ydynt yn rhai pysgota ar stociau yn yr FMP hwn, ac yn cydnabod y newidiadau y gall y ffactorau hyn eu hachosi i iechyd stociau. Mae'r nod hefyd yn ystyried casglu tystiolaeth sy'n canolbwyntio ar ddeall a lleihau effeithiau amgylcheddol ehangach pysgota.

Y ffocws ar gyfer y nod hwn yw datblygu dealltwriaeth o'r dulliau rheoli pysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystemau mwyaf addas ar gyfer y pysgodfeydd hyn a llunio cynllun ar gyfer gweithredu'r dulliau hyn yn y dyfodol, lle bo modd. Gallai modelau ecosystem a

ddatblygwyd yn ystod cyfnod casglu tystiolaeth yr FMP hwn helpu i egluro'r strategaethau rheoli mwyaf perthnasol sy'n seiliedig ar ecosystemau i'w hystyried (gweler y datganiad tystiolaeth am fanylion).

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr (1 i 2 flynedd)

- ymgorffori casglu tystiolaeth i gefnogi dulliau sy'n seiliedig ar ecosystemau yn yr anghenion ymchwil (fel yr amlinellir yn nod 3). Bydd hyn yn helpu i gefnogi ymgorffori ffactorau ecolegol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach mewn asesiadau stoc a chyngor pysgota a lleihau effeithiau amgylcheddol pysgota
- archwilio llwybrau i amddiffyn a galluogi adferiad cynefinoedd sydd wedi'u nodi fel rhai pwysig i benwaig rhag y pwysau sy'n peri risgiau iddynt

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i hirdymor (mwy na 3 blynedd)

- cefnogi gwaith i gynnal Gwerthusiadau Strategaeth Rheoli ar gyfer stociau yn yr FMP hwn sy'n ystyried rhyngweithiadau ecosystemau a gweithio i weithredu'r strategaeth reoli sy'n bodloni nodau'r FMP orau
- gwella dealltwriaeth o ryngweithiadau rhwng stociau FMP a stociau cyfagos, yn enwedig lle mae cymysgu'n digwydd (er enghraifft, rhwng marchfecryll y gorllewin a Môr y Gogledd), neu lle mae cymysgu'n ansicr (er enghraifft, rhwng penwaig Môr Iwerddon a stociau penwaig a gwmpesir gan yr FMP hwn)
- lle bo modd, gwella'r sail dystiolaeth ar rôl a swyddogaeth ecosystem rhywogaethau FMP i gefnogi gwell dealltwriaeth o'r dull rheoli mwyaf priodol sy'n seiliedig ar ecosystemau ar gyfer y stociau hyn
- lle bo'n briodol, gweithio i nodi cynefinoedd pysgod pwysig pellach ar gyfer stociau FMP a'r pwysau allweddol sy'n peri risgiau iddynt
- parhau i ddiweddaru'r sylfaen dystiolaeth sefydledig ar bwysau a chyfleoedd allweddol i stociau FMP a'r ecosystem ehangach y maent yn gweithredu ynddi, o'r tu allan i weithgarwch pysgota
- gweithio'n agos gydag FMPs perthnasol sy'n gorgyffwrdd i ddeall yn well a lleihau bygythiadau offer pysgota eraill i gynefinoedd pysgod pwysig rhywogaethau'r FMP hwn

## Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcan tystiolaeth wyddonol
- amcan ecosystem

# Nod polisi 5: Deall a lleihau effeithiau pysgodfeydd FMP ar rywogaethau nad ydynt yn dargedau, gan gynnwys trwy leihau, a lle bo modd, dileu sgil-ddaliadau rhywogaethau sensitif.

## Rhesymwaith

Mae'r Ddeddf a'r JFS yn rhwymo awdurdodau polisi pysgodfeydd i gyfrif am, a cheisio lleihau, effeithiau ar rywogaethau anfasnachol. Mae hyn yn cynnwys lleihau niwed posibl oherwydd sgil-ddaliadau a thaflu pysgod yn ogystal â physgod yn mynd yn sownd a lle mae rhwydi a daflwyd yn parhau i ddal a lladd bywyd morol. Bydd hyn hefyd yn cefnogi cyflawniad GES.

Mae cyngor yr SNCB, arbenigedd rhanddeiliaid, a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod datblygu'r FMP yn tynnu sylw at effeithiau posibl y pysgodfeydd pelagig hyn, gan gynnwys sgil-ddaliadau (adar môr, mamaliaid morol a physgod nad ydynt yn dargedau), taflu pysgod yn ôl, ac effeithiau anuniongyrchol ar y gweoedd bwyd ehangach. Fodd bynnag, mae bylchau tystiolaeth a chyfyngiadau data yn atal dealltwriaeth gynhwysfawr o raddfa'r effeithiau hyn ac ansicrwydd ynghylch y llwybr mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r problemau.

Er enghraifft, cododd y bartneriaeth FMP bryderon ynghylch diffyg data cadarn ar sgil-ddaliadau ar gyfer adar môr, morfilod, morloi, siarcod, tiwna, salmonidau, a rhywogaethau pysgod masnachol a sensitif eraill. Nod y nod hwn yw cefnogi a sicrhau bod pysgodfeydd ar gyfer rhywogaethau pelagig yn cael eu hystyried o fewn mentrau monitro a lliniaru presennol a chynyddu dealltwriaeth o'r materion hyn gan alluogi strategaeth hirdymor i leihau, a lle bo'n bosibl atal, effeithiau ehangach.

Mae camau gweithredu tymor byr o dan y nod hwn yn cydnabod ac yn cefnogi ymdrechion parhaus i fonitro a lliniaru sgil-ddaliadau, gan gynnwys gan y Fenter Lliniaru Sgil-ddaliadau genedlaethol a rhaglenni Clean Catch yn ogystal â chydnabod a defnyddio data a gesglir gan fentrau gwirfoddol ar raddfa lai fel y rhai a gynhelir gan y CSMA. Mae'r camau gweithredu'n tynnu sylw at yr angen i ystyried canfyddiadau'r mentrau hyn ar gyfer pysgodfeydd yr FMP yn benodol, oherwydd bydd priodoldeb gwahanol ddulliau monitro a lliniaru sgil-ddaliadau yn amrywio rhwng ac o fewn pysgodfeydd.

Mae angen y ddealltwriaeth benodol i'r cyd-destun hon i lywio datblygiad polisïau neu fesurau sy'n anelu at wella monitro a lliniaru sgil-ddaliadau. Gall dulliau perthnasol ar gyfer monitro sgil-ddaliadau gynnwys hunan-adrodd, arsylwyr, a defnyddio REM, tra gellid ystyried dulliau atal/lliniaru megis dyfeisiau atal acwstig, dyfeisiau acwstig goddefol, rhwydi y gellir eu canfod yn weledol, newid offer, rheolaethau gofodol amser-benodol, a'r mesurau gwirfoddol a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y CSMA.

Gallai gwaith i ddeall priodoldeb y mesurau hyn ystyried ffactorau megis priodoldeb ar gyfer maint y llong, math o offer, a lleoliad pysgota (er enghraifft, o fewn MPAs, yn gorgyffwrdd â dosbarthiad rhywogaethau sensitif).

Gallai camau gweithredu yn y tymor canolig i'r tymor hir helpu i flaenoriaethu lle byddai mesurau yn fwyaf effeithiol wrth leihau sgil-ddaliadau.

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr (1 i 2 flynedd)

- parhau i gefnogi, a sicrhau bod y pysgodfeydd hyn yn cael eu hystyried o fewn, rhaglenni a mentrau monitro a lliniaru sgil-ddaliadau presennol
- ystyried asesiad o wahanol ddulliau monitro sgil-ddaliadau a sut maen nhw'n berthnasol i'r offer sy'n gyffredin yn y pysgodfeydd hyn
- ystyried asesiad o briodoldeb dulliau ar gyfer atal neu liniaru sgil-ddaliadau rhywogaethau symudol sensitif ar gyfer pysgodfeydd FMP

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i hirdymor (mwy na 3 blynedd)

- gwella'r ddealltwriaeth o sgil-ddaliadau ar gyfer pysgodfeydd pelagig, gan gynnwys trwy ddefnyddio data presennol lle bo modd

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- amcan cynaliadwyedd
- amcan tystiolaeth wyddonol
- amcan ecosystem
- amcan sgil-ddaliadau

## Nod polisi 6: lleihau effaith pysgota ar newid hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau newid hinsawdd.

### Rhesymwaith

Mae'r nod polisi hwn yn unol ag adran 4.1 ('Cyflawni rheolaeth gynaliadwy ar bysgodfeydd - ein dull o reoli pysgodfeydd') o'r JFS.

Mae'r sail dystiolaeth sy'n sail i newid hinsawdd a physgodfeydd yn datblygu, ac mae angen mwy o waith i ddeall yn llawn:

- sut y gellir lleihau allyriadau carbon mewn ffordd gynaliadwy
- y dulliau mwyaf priodol ar gyfer ymgorffori gwybodaeth am effeithiau rhagweledig newid hinsawdd ar stociau mewn asesiadau stoc a chyngor ar gyfleoedd pysgota

- effeithiau tebygol newid hinsawdd ar stociau pysgod a chymunedau pysgota a graddfa a natur y newid sydd ei angen i addasu

Gwyddom y bydd newidiadau i ddosbarthiad a chyfansoddiad maint y stociau o fewn yr FMP hwn o ganlyniad i newid hinsawdd, ond nid yw'r effeithiau cyffredinol wedi'u deall yn llawn eto. Mae'r camau gweithredu isod yn ystyried sut y gallwn adeiladu a defnyddio sylfaen dystiolaeth well er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ar gamau rheoli ar gyfer y dyfodol.

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i hirdymor (mwy na 3 blynedd)

- cydweithio ledled y DU ac yn rhyngwladol ar dystiolaeth a dadansoddiad pellach i ddeall effaith newid hinsawdd ar y stociau yn yr FMP hwn a datblygu opsiynau ar gyfer sut y gall y pysgodfeydd hyn addasu i effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol
- ystyried y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer integreiddio gwybodaeth am effeithiau newid hinsawdd ac amrywioldeb hinsawdd ar stociau a physgodfeydd i reoli pysgodfeydd, gan gynnwys asesiadau stoc a chyngor pysgota
- gwella dealltwriaeth o sut mae pysgota am rywogaethau FMP yn cyfrannu at newid hinsawdd a lleihau neu atal effeithiau ar yr hinsawdd lle bo modd

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- amcan cynaliadwyedd
- amcan newid hinsawdd
- amcan tystiolaeth wyddonol

## Nod polisi 7: Gwella dealltwriaeth o bysgodfeydd pelagig sydd wedi'u cynnwys yn yr FMP hwn, a helpu i wireddu'r manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ohonynt

### Rhesymwaith

Fel y nodir yn y JFS a'r Ddeddf, mae gan awdurdodau polisi pysgodfeydd uchelgais i gefnogi diwydiant pysgota modern, gwydn ac sy'n gyfrifol yn amgylcheddol ac i alluogi pysgodfeydd i barhau i ddarparu budd cymdeithasol ac economaidd i gymunedau arfordirol er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys rheoli pysgodfeydd cynaliadwy sy'n cydbwyso ffactorau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gan sicrhau hyfywedd economaidd heb or-ecsbloetio stociau. Mae'r JFS yn nodi y gellir ymestyn cwmpas FMP yn ôl yr angen, i ystyried materion rheoli

pysgodfeydd ehangach sy'n cwmpasu pryderon amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

O ystyried y gallai'r FMP hwn arwain at fesurau sy'n gofyn am newid rheoleiddio yn y dyfodol, mae angen ystyried gallu pysgotwyr i addasu ochr yn ochr â ffactorau economaidd ac amgylcheddol eraill. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fflyd y glannau, lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod effeithiau rheoli pysgodfeydd yn aml yn cael eu teimlo'n fwy. Mae'r camau gweithredu tymor byr o dan y nod hwn yn canolbwyntio ar weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall a chofnodi'r heriau hyn yn well.

Mae pysgota am y stociau o fewn yr FMP hwn yn cefnogi bywoliaeth ac mae iddo arwyddocâd diwylliannol. Mae gan y pysgodfeydd hyn y potensial i gynhyrchu manteision sylweddol i genedlaethau'r dyfodol o gymunedau lleol, gwledig. Nod y camau gweithredu tymor canolig i hirdymor o dan y nod hwn yw gwella dealltwriaeth a chefnogi gwireddu manteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y pysgodfeydd hyn, yn enwedig ar gyfer pysgodfeydd penwaig traddodiadol ar raddfa fach sydd o bwys diwylliannol ym Môr Hafren a physgodfa sardîns y glannau yng Nghernyw. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y pysgodfeydd hyn wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn hanes, treftadaeth a thraddodiad ac yn bwysig ar gyfer hunaniaeth leol a ffordd o fyw, gan arwain at yr ail o'r camau gweithredu hyn o dan y nod hwn.

Mae camau gweithredu hefyd yn cynnwys nodi, a lle bo modd, mynd i'r afael â rhwystrau (rheoleiddiol neu fel arall) i gyfleoedd pysgota ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys cwotâu sy'n gostwng neu'n gyson yn isel oherwydd bod iechyd stoc yn gostwng, mynediad at feysydd pysgota, capasiti gweithredol a phrosesu, a chyfyngiadau posibl o weithgareddau morol eraill. Dylid adeiladu ar ffynonellau data eraill sy'n bodoli eisoes ac sy'n datblygu fel yr Arolwg Cymdeithasol Pysgota Masnachol yma, lle bo modd.

Yn olaf, anogir persbectif cadwyn werth ehangach i archwilio cyfleoedd twf diogel a chynaliadwy, lle bo'n briodol. Mae hyfywedd economaidd yn dibynnu ar ffactorau fel galw defnyddwyr, argaeledd a chadw llafur, a mynediad at seilwaith prosesu a marchnadoedd. Mae galw defnyddwyr y DU am rywogaethau fel marchfecryll yn isel. Hyd yn oed gyda galw defnyddwyr (megis am sardîns), gall mynediad at borthladdoedd addas a chapasiti'r diwydiant prosesu fod yn dagfa. Deall y rhwystrau hyn fydd y cam cyntaf i fynd i'r afael â nhw lle bo modd.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr (1 i 2 flynedd)

Parhau i weithio gyda fflyd y glannau sy'n targedu stociau'r FMP i ddeall a chasglu'n well yr heriau maen nhw'n eu hwynebu a'u hanghenion mewn perthynas â chyfleoedd pysgota ar gyfer stociau'r FMP.

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i hirdymor (mwy na 3 blynedd)

- lle bo modd, casglu tystiolaeth ychwanegol o fanteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y pysgodfeydd sy'n gysylltiedig â'r FMP, gan ystyried yr ystod eang o fuddiolwyr
- cydweithio â rhanddeiliaid i helpu i ddiogelu hunaniaeth ddiwylliannol ac arferion traddodiadol mewn pysgodfeydd FMP, yn enwedig mewn perthynas â physgodfeydd penwaig traddodiadol ar raddfa fach ym Môr Hafren a physgodfeydd sardîns glannau Cernyw
- cefnogi cynaliadwyedd y diwydiant drwy archwilio ar y cyd ffyrdd o sicrhau mynediad teg at gyfleoedd pysgota i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- archwilio ffyrdd y gellid cynyddu capasiti yn y diwydiant drwy gefnogi twf diogel a chynaliadwy yn y pysgodfeydd hyn a'r cadwyni gwerth cysylltiedig, lle bo'n briodol

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- amcan cynaliadwyedd
- amcan ecosystem
- amcan budd cenedlaethol
- amcan mynediad cyfartal

## Nod polisi 8: hwyluso dull rheoli cydweithredol ac addasol i gefnogi gwneud penderfyniadau teg, effeithiol a thryloyw ar gyfer pysgodfeydd pelagig cynaliadwy a gwydn

### Rhesymwaith

Mae defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael a chyngor gwyddonol, gwneud penderfyniadau tryloyw a gweithio mewn partneriaeth, wedi'u rhestru yn y JFS fel egwyddorion craidd a fydd yn sail i gyflawni'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y JFS. Mae'r FMP hwn yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn drwy fabwysiadu dull cyfalaf naturiol, a oedd yn cynnwys sefydlu'r Bartneriaeth FMP ac sydd wedi annog tryloywder drwy gydol y broses drwy hwyluso trafodaethau am dystiolaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau. Cafodd hyn groeso da gan randdeiliaid ar draws y llywodraeth, diwydiant a chyrff anllywodraethol.

Er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y dull hwn, sefydlwyd gwerthusiad o broses ddatblygiadol. Y cam cyntaf o dan y nod hwn yw rhannu ei ganfyddiadau gyda rhanddeiliaid a'r rhaglen FMP ehangach i lywio datblygiad FMP yn y dyfodol ac amlygu cyfleoedd a heriau wrth gymhwyso'r dull hwn yn ehangach.

Mae gweithio ar y cyd yn sicrhau bod ffactorau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd yn cael eu hadlewyrchu wrth wneud penderfyniadau. Nod y camau gweithredu o dan y nod hwn yw cryfhau tryloywder ac integreiddio cyflawni FMP â pholisi morol ehangach, gan gynnwys cynllunio, trwyddedu a chadwraeth. Bydd hyn yn cefnogi rhannu gwybodaeth ac addasrwydd, gyda chydweithio wedi'i ymgorffori ar draws gweithredu, monitro ac adolygu. Gall hyn fod drwy barhau ac ehangu'r Bartneriaeth FMP, neu drwy fforymau eraill a allai gael eu cydlynu ar draws nifer o FMPs mewn cyd-destun rhanbarthol, neu sy'n canolbwyntio ar bysgodfeydd pelagig yn yr ardal, a meysydd polisi eraill sy'n effeithio arnynt.

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr (1 i 2 flynedd)

- rhannu gwersi allweddol a ddysgwyd o werthuso'r dull a gymerwyd i ddatblygu'r FMP hwn gyda rhanddeiliaid gan gynnwys y rhaglen FMP ehangach
- ystyried sut y gellir parhau i fabwysiadu dull cydweithredol wrth weithredu, monitro ac adolygu'r FMP
- ystyried y ffordd orau o sicrhau bod unrhyw effeithiau ar stociau a physgodfeydd FMP yn cael eu hystyried wrth gyflawni polisïau ehangach

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- amcan tystiolaeth wyddonol
- amcan budd cenedlaethol
- amcan cynaliadwyedd

# Gweithredu, monitro ac adolygu

## Gweithredu a monitro

Mae'r FMP hwn yn nodi gweledigaeth a nodau ar gyfer y pysgodfeydd hyn, ynghyd â'r polisïau a'r ymyriadau rheoli sy'n angenrheidiol i'w cyflawni. Mae'r FMP yn cynnig mesurau newydd ond nid yw'n eu gweithredu. Bydd cyfnod gweithredu yn dilyn y camau a'r mesurau lle bydd opsiynau cyflawni yn cael eu nodi ymhellach. Gall hyn gynnwys mesurau gwirfoddol, amodau trwydded, is-ddeddfau cenedlaethol a rhanbarthol, ac offerynnau statudol. Bydd y cyfnod gweithredu hwn yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth bresennol, unrhyw gamau a gymerwyd drwy gydol datblygiad yr FMP a'r opsiynau a drafodwyd gyda rhanddeiliaid. Cyn belled ag y bo hyn yn bosibl, bydd y Bartneriaeth FMP yn parhau i gyfarfod a chefnogi'r gweithrediad.

Bydd cynlluniau gweithredu dilynol yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau cynnydd.

Bydd yr FMP hwn yn cael ei adolygu o leiaf bob 6 blynedd yn unol â'i gylch adolygu statudol. Ar ôl y pwynt hwn bydd angen dangos tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd drwy weithredu'r camau a'r mesurau hynny. Bydd adroddiad ar yr FMP hefyd bob 3 blynedd fel rhan o gylch adolygu ac adrodd y JFS. Bydd y broses adolygu hon hefyd yn cynnwys monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd posibl, er mwyn helpu i sefydlu a oes angen unrhyw newidiadau yn y ffordd y rheolir pysgodfeydd sardîns, brwyniaid, penwaig, marchfecryll a brwyniaid arian mawr.

## Dangosyddion ar gyfer monitro effeithiolrwydd y cynllun

Dyma fersiwn gyntaf yr FMP hwn, sy'n nodi'r camau cychwynnol a'r weledigaeth hirdymor sy'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r pysgodfeydd hyn yn gynaliadwy. Bydd FMPs yn cymryd amser i'w datblygu a'u gweithredu. Bwriedir iddynt ganiatáu dull addasol. Byddant yn cael eu hadolygu a'u gwella (lle bo angen) dros amser wrth i ni gasglu mwy o dystiolaeth a chydweithio â'r sector pysgota a buddiannau ehangach ar reoli cynaliadwy'r pysgodfeydd hyn.

Bydd cyflawni'r camau a'r mesurau ar gyfer yr FMP hwn yn cael ei fonitro. Cyn belled ag y bo modd, bydd monitro yn cynnwys ystyried effeithiolrwydd y polisïau o dan bob un o'r wyth nod a nodir yn yr FMP hwn. Efallai y bydd angen adolygiadau pellach hefyd os bydd cyfleoedd newydd yn codi i wella effeithiolrwydd y cynllun a chyflawni gweledigaeth gyffredinol yr FMP.

Isod rydym yn nodi sut y gellir monitro effeithiolrwydd y cynllun:

- Bydd cynnydd yn y dystiolaeth sydd ar gael i ddiffinio a mesur statws stoc ar gyfer stociau sardîns, brwyniaid, penwaig Môr Hafren a Gorllewin Sianel Lloegr, sydd heb ddigon o dystiolaeth i bennu MSY, yn ddangosydd o effeithiolrwydd y cynllun hwn ar gyfer y stociau hyn.
- Fel rhan o drafodaethau blynyddol, cynhelir adolygiadau blynyddol o'r stociau i ddadansoddi sut maen nhw'n perfformio yn erbyn y pwyntiau cyfeirio hyn, ac unrhyw bwyntiau cyfeirio eraill a ddarperir yn y cyngor. Bydd defnydd parhaus o'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael i lywio penderfyniadau rheoli ar gyfer y stociau sy'n derbyn cyngor gwyddonol ar gyfleoedd pysgota (penwaig Gorllewin Sianel Lloegr a Môr Hafren, penwaig y Môr Celtaidd, marchfecryll a brwyniaid arian mawr) a pharhau i weithio'n effeithiol gyda phartneriaid Gwladwriaethau arfordirol i sicrhau cynaeafu cynaliadwy'r stociau hyn yn ddangosydd o effeithiolrwydd y cynllun hwn. Mae hyn yn cydnabod cyfyngiadau'r DU o ran rheoli stoc ar y cyd lle gallai cynnal biomas cyffredinol fod y tu hwnt i'n rheolaeth ac yn adlewyrchu'r amrywiad posibl yn y dyfodol o ganlyniad i newid hinsawdd.
- Bydd cynnydd yn y dystiolaeth ecolegol, gymdeithasol ac economaidd ehangach sy'n ymwneud â'r pysgodfeydd hyn y gellir ei defnyddio i lywio rheolaeth y stociau hyn, gan gynnwys sut y gall newid hinsawdd effeithio ar y stociau a chyfleoedd pysgota cysylltiedig, yn ddangosydd o effeithiolrwydd y cynllun hwn.

- Bydd cynnydd yn y dystiolaeth ar faint effeithiau ehangach y pysgodfeydd ar yr amgylchedd, yn ogystal â chynnydd yn unrhyw fesurau sydd ar waith i leihau unrhyw effeithiau a nodwyd os dangosir bod eu hangen, yn ddangosydd o effeithiolrwydd y cynllun hwn.
- Bydd cynnydd yn y ddealltwriaeth o fanteision economaidd, diwylliannol a chymdeithasol y pysgodfeydd hyn yn ddangosydd o effeithiolrwydd y cynllun hwn.
- Bydd cwblhau a rhannu'r gwerthusiad o gymhwyso dull cyfalaf naturiol gyda rhanddeiliaid yn ddangosydd o effeithiolrwydd y cynllun hwn.
- Bydd cynnydd yn y dystiolaeth ar y risgiau a'r cyfleoedd i stociau FMP i lywio mesurau i leihau effeithiau negyddol ar y stociau a/neu i gefnogi cyfleoedd i'r stociau, yn dangos effeithiolrwydd yn erbyn y cynllun hwn.

Bydd yr FMP yn manteisio ar setiau data cymdeithasol yn y dyfodol i'w datblygu fel y nodir yn adran 3.2.10. o'r JFS, sy'n amlinellu y bydd ystod o wybodaeth yn cael ei chasglu, gan gynnwys data gwyddonol, technegol, economaidd a chymdeithasol. Bydd fframwaith monitro a gwerthuso'r FMP yn parhau i gael ei ddatblygu a'i gefnogi gan werthusiad rhaglen annibynnol o raglen yr FMP, a fydd yn cynhyrchu fframwaith ar gyfer gwerthuso FMPs unigol.

## Proses werthuso ac adolygu ar gyfer dangosyddion

Fel y nodir yn y Ddeddf, rhaid adolygu'r FMP hwn pan fo'n briodol, ac o leiaf bob 6 blynedd. Bydd yr adolygiad ffurfiol hwn yn asesu sut mae'r FMP wedi perfformio o ran cyflawni amcanion y Ddeddf hon. Bydd canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn llywio datblygiad fersiynau dilynol o'r FMP. Gellir cynnal adolygiadau yn gynt, er enghraifft, os yw un o'r dangosyddion uchod yn nodi'r angen am adolygiad.